ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



# Cynllun gweithredu diogelwch ar-lein i blant a phobl ifanc yng Nghymru 2019

# Cynllun gweithredu diogelwch ar-lein i blant a phobl ifanc yng Nghymru 2019

**Cynulleidfa**
Yr holl weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc gan gynnwys uwch swyddogion dynodedig ar gyfer diogelu plant, athrawon ac ymarferwyr, a gweithwyr ieuenctid; awdurdodau lleol; consortia rhanbarthol; penaethiaid a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir; penaethiaid sy'n gyfrifol am unedau cyfeirio disgyblion; llywodraethwyr ysgolion; awdurdodau esgobaethol yr eglwys; perchenogion ysgolion annibynnol; byrddau diogelu lleol; sefydliadau'r trydydd sector; rhieni a gofalwyr; staff mewn sefydliadau sydd â'r cyfrifoldeb arweiniol am ddiogelu plant a/neu ddiogelwch ar-lein; pawb arall sydd â diddordeb.

**Trosolwg**
Yn y ddogfen hon ceir diweddariad ar y gwaith a wnaed gennym y llynedd a'r gwaith y byddwn yn bwrw ymlaen ag ef er mwyn cadw plant a phobl ifanc yng Nghymru yn ddiogel ar-lein.

**Camau i'w cymryd**
Dim – er gwybodaeth yn unig.

**Rhagor o wybodaeth**
Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Uned Dysgu Digidol
Is-adran Cyfathrebu Digidol a Strategol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
e-bost: hwb@llyw.cymru

**Copïau ychwanegol**
Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn llyw.cymru/addysg-a-sgiliau

OGL © Hawlfraint y Goron Hydref 2019 WG37849 ISBN digidol 978 1 83876 978 9

# Cynnwys


**Rhagair gan y Gweinidog** **2**

**Cyflwyniad** **3**

**Cyd-destun** **4**

**Yr ymrwymiadau fel y'u hamlinellwyd yng *Nghynllun gweithredu diogelwch ar-lein i blant a phobl ifanc yng Nghymru* (2018)** **7**

**Gweithgareddau a diweddariad fesul cam gweithredu** **11**

Cyngor a chymorth 11

Cydweithio 18

Cyfathrebu a hyrwyddo 34

Canllawiau a pholisi 43

Ymchwil 50

Adnoddau 52

Hyfforddiant a datblygiad 65

**Meysydd gwaith newydd ar gyfer 2019** **73**

**Cynllun gweithredu diogelwch ar-lein i blant a phobl ifanc yng Nghymru 2019** **80**

**Casgliad** **86**

## Rhagair gan y Gweinidog

Ymdrechu i sicrhau bod y rhyngrwyd yn lle diogel i bawb yw un o heriau mwyaf yr unfed ganrif ar hugain. A ninnau'n treulio cymaint o amser ar-lein dyddiau hyn, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod ei bod yn hanfodol ein bod yn cadw ein plant a'n pobl ifanc yn ddiogel.

Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn ymblethu drwy gynifer o agweddau ar ein bywydau. Bellach, nid yw pobl ifanc yn datgysylltu bywyd ar-lein a bywyd all-lein. Yn lle hynny mae'r rhyngrwyd yn rhan annatod o'r ffordd y maent yn byw bywyd bob dydd. Fodd bynnag, ar y cyd â'r ffaith bod y rhyngrwyd yn gyfleus ac ym mhobman, mae hefyd yn cyflwyno peryglon posibl sylweddol.

Y llynedd, roedd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi *Cynllun gweithredu i ddiogelu plant a phobl ifanc ar-lein yng Nghymru* – y cyntaf o'i fath. Roedd y cynllun yn nodi sut mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag athrawon, rhieni a gofalwyr, dysgwyr a phartneriaid ledled Cymru i gadw ein plant a'n pobl ifanc yn ddiogel ar-lein.

Ond nid dechrau'r gwaith a wnaed yng Nghymru i ddiogelu plant a phobl ifanc ar-lein oedd y cynllun gweithredu hwnnw, o bell ffordd. Cyn i'r cynllun gweithredu gael ei gyhoeddi, roedd llawer o waith ardderchog wedi'i gyflawni. Mae'r cynllun gweithredu yn adeiladu ar ein llwyddiannau, megis Parth Diogelwch Ar-lein Hwb a'n hofferyn hunanasesu diogelwch ar-lein dwyieithog, 360 degree safe Cymru. Bydd y cynllun gweithredu hwn yn parhau i roi ffocws ar gyfer ein gwaith diogelwch ar-lein, sy'n flaenoriaeth allweddol imi fel y Gweinidog Addysg, ac fel rhiant.

Yn ychwanegol at ddiogelu plant a phobl ifanc rhag gweithgarwch niweidiol ar-lein, mae'n hanfodol ein bod yn darparu addysg sy'n sicrhau bod gan blant a phobl ifanc yr wybodaeth, y sgiliau, a'r gallu i wrthsefyll pwysau, i'w cadw eu hunain yn ddiogel ar-lein.

Mae'r cynllun gweithredu hwn ar gyfer 2019 yn cynnig yr wybodaeth ddiweddaraf ar y gwaith a wnaed ers cyhoeddi cynllun gweithredu 2018 ym mis Gorffennaf y llynedd. Yn ogystal, mae nifer o gamau gweithredu newydd sy'n berthnasol i'r gwaith a wneir eleni wedi'u hychwanegu.

O ran y cyd-destun ehangach, mae llawer o bethau'n digwydd yn y maes hwn, gan gynnwys bod Llywodraeth y DU wedi amlinellu eu cynigion fel rhan o'u Papur Gwyn 'Online Harms' eleni. Mae Llywodraeth Cymru yn edrych ymlaen at barhau i gydweithio â'r Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon a'r Swyddfa Gartref wrth i'r gwaith hwn fynd rhagddo.





**Kirsty Williams AC**
**Y Gweinidog Addysg**

## Cyflwyniad

Nod Llywodraeth Cymru, ar ran Gweinidogion Cymru, yw helpu i warchod plant a phobl ifanc rhag cynnwys anghyfreithlon a niweidiol ar y rhyngrwyd a hyrwyddo ymddygiad diogel, cyfrifol ac ystyriol ar-lein.

Mae'r rhyngrwyd yn rhan hanfodol o fywydau plant a phobl ifanc, ac yn rhoi cyfleoedd i gymdeithasu, cyfathrebu, cael eu difyrru, dysgu a dod o hyd i gymorth. Hefyd, mae'n gyfrwng sy'n gallu cael ei gamddefnyddio gan bobl â bwriadau maleisus, sy'n targedu unigolion a grwpiau bregus yn ein cymdeithas.

Mae diogelwch ar-lein yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru. Cafodd y cynllun gweithredu cyntaf ei gomisiynu gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ar y pryd yn 2017. Nod y cynllun hwnnw oedd cynnig ffocws strategol a chydgysylltu'r gwaith a oedd yn cael ei wneud ar draws lywodraeth i wella diogelwch plant a phobl ifanc ar-lein. Mae'r ddogfen hon yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar bob un o gamau gweithredu cynllun 2018, gan grynhoi'r gweithgareddau a wnaed dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae hefyd yn amlinellu ein cynlluniau a'n hymrwymiadau ar gyfer y dyfodol. Mae statws pob cam gweithredu wedi'i nodi ac mae crynodeb o'r camau gweithredu ar gyfer 2019 ar gael ar dudalennau 80–85.

**Mae'r ymrwymiadau a'r camau gweithredu yn parhau i gael eu grwpio yn ôl y categorïau canlynol.**

- **Cyngor a chymorth** – darparu gwybodaeth i blant a phobl ifanc, ymarferwyr addysg, gweithwyr proffesiynol maes addysg, rhieni a gofalwyr er mwyn hyrwyddo diogelwch ar-lein i bobl ifanc.
- **Cydweithio** – cydweithio â phartneriaid ledled y DU a sefydliadau eraill i gymryd camau ar y cyd i gyflawni ein hamcanion cyffredin.
- **Cyfathrebu a hyrwyddo** – codi proffil diogelwch ar-lein i gyrraedd cynulleidfa eang ac atgyfnerthu pwysigrwydd defnyddio'r rhyngrwyd yn ddiogel a chyfrifol.
- **Canllawiau a pholisi** – cynnal canllawiau statudol ac anstatudol i adlewyrchu datblygiadau technolegol a newidiadau yn y ffordd y defnyddir y rhyngrwyd.
- **Ymchwil** – cefnogi gwaith ymchwil i'r defnydd a wneir o'r rhyngrwyd gan blant a phobl ifanc er mwyn bod cam ar y blaen i fygythiadau sy'n datblygu a pharhau i lywio'r gwaith o ddatblygu polisïau a chamau gweithredu sy'n angenrheidiol i hyrwyddo diogelwch ar-lein.
- **Adnoddau** – darparu amryw o adnoddau i blant a phobl ifanc, ymarferwyr addysg, gweithwyr proffesiynol maes addysg, rhieni a gofalwyr i gefnogi'r gwaith o ddarparu addysg ar ddiogelwch ar-lein a sylw iddo.
- **Hyfforddiant a datblygiad** – darparu hyfforddiant perthnasol i ymarferwyr addysg, gweithwyr proffesiynol ym maes addysg, ysgolion a phartneriaid eraill i gefnogi'r gwaith o ddarparu addysg ar ddiogelwch ar-lein i blant a phobl ifanc.

# Cyd-destun

## Rhaglen Hwb

Rhaglen gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella'r defnydd o dechnoleg ddigidol ar gyfer dysgu ac addysgu mewn ysgolion yw Rhaglen Hwb. Mae'r rhaglen addysg ganolog hon yn rhoi mynediad i randdeiliaid ledled Cymru at ystod o offerynnau digidol ac adnoddau a all gynorthwyo a chefnogi'r gwaith o drawsnewid arferion digidol ystafelloedd dosbarth.

Mae'r Rhaglen Hwb yn cwmpasu elfennau lluosog o waith, gan gynnwys camau gweithredu diogelwch ar-lein i gefnogi'r gwaith o warchod ac addysgu plant a phobl ifanc i ddefnyddio offerynnau digidol a'r rhyngrwyd yn ddiogel ac yn briodol.

## Cenhadaeth ein cenedl

Mae *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl, Cynllun gweithredu 2017–20* (2017) yn gynllun gweithredu sy'n nodi sut mae'r gyfundrefn ysgol yng Nghymru, gan gynnwys y chweched dosbarth a'r ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol, yn symud ymlaen hyd at 2021 i fynd ati i roi cwricwlwm newydd ar waith yn effeithiol.

Mae cymhwysedd digidol yn amcan allweddol o Gwricwlwm i Gymru 2022 a bydd defnyddio offerynnau digidol a'r rhyngrwyd yn allweddol yn y gwaith o roi cwricwlwm newydd ar waith.

Mae cefnogi dysgwyr i ddod yn fedrus a hyderus yn y defnydd diogel a chyfrifol o'r rhyngrwyd ac o offerynnau digidol yn hanfodol er mwyn cefnogi eu llwybrau dysgu. Ein nod yw rhoi iddynt y sgiliau angenrheidiol i fanteisio i'r eithaf ar y defnydd o dechnoleg ddigidol fel offeryn dysgu wrth i'r rhyngrwyd ymwreiddio hyd yn oed yn ddyfnach yn ein bywyd bob dydd.

## Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn gytundeb rhyngwladol sy'n gwarchod hawliau dynol plant dan 18 oed. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo'n llwyr i wneud egwyddorion y CCUHP yn realiti i holl blant a phobl ifanc Cymru.

Bydd y cynllun gweithredu hwn yn cael effaith gadarnhaol ac yn cyfrannu at wneud erthyglau'r CCUHP yn realiti i blant Cymru. Mae'r cynllun gweithredu hwn yn cydnabod bod amgylcheddau ar-lein yn galluogi plant a phobl ifanc i arfer amrywiaeth eang o'u hawliau, gan gynnwys yr hawl i fod yn ddiogel.

## Cadwch eich hun yn ddiogel, lleisiwch eich barn – Gweithgarwch Llais y Disgybl

Mae safbwyntiau plant a phobl ifanc yn hanfodol i weithrediadau a hyrwyddir gan Lywodraeth Cymru i helpu i'w cadw'n ddiogel ar-lein.

Yn hydref 2017, lluniwyd pecyn gweithgarwch gan yr NSPCC a'i hyrwyddo fel rhan o ddigwyddiad ar y cyd gyda Grŵp Trawsbleidiol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar Blant a Phobl Ifanc a'r Grŵp Trawsbleidiol ar Atal Cam-drin Plant yn Rhywiol. Darparwyd y pecyn gweithgarwch trwy barth diogelwch ar-lein llwyfan dysgu Hwb[1]. Roedd y pecyn gweithgarwch yn gwahodd plant o bob oed i rannu eu safbwyntiau ar y gwaith o ddatblygu cynllun gweithredu diogelwch ar-lein cyntaf Llywodraeth Cymru.

Cafwyd cyfanswm o 246 o ymatebion gan blant a phobl ifanc i'r pecyn. Pan ofynnwyd iddynt nodi eu dymuniad am un prif flaenoriaeth ar gyfer y Cynllun Gweithredu Diogelwch Ar-lein, y tri phrif gategori a nodwyd oedd:

1. bwlio
2. pryder am ddieithriaid
3. twyll.

Mae'r pryderon a nodwyd o'r gweithgarwch ymgysylltu yn ystyriaeth graidd yn y gwaith o ddatblygu camau gweithredu y bydd Llywodraeth Cymru yn eu hyrwyddo i warchod plant a phobl ifanc sy'n defnyddio'r rhyngrwyd.

[1] hwb.llyw.cymru/repository/resource/a11a3ca2-f002-4969-80d1-88b624899293/cy

## Mesurau diogelu ar-lein sydd wedi'u cyflwyno hyd yn hyn

Ym mis Ionawr 2014, sefydlodd Llywodraeth Cymru gontract gyda darparydd arbenigol, South West Grid for Learning (SWGfL), i hyrwyddo ymddygiad diogel a chyfrifol ar-lein sy'n ystyried pobl eraill, gan helpu i ddiogelu plant a phobl ifanc yng Nghymru yn erbyn cynnwys anghyfreithlon a niweidiol ar y rhyngrwyd trwy ddatblygu ystod o offerynnau, adnoddau a gweithgareddau diogelu ar-lein ar gyfer ymarferwyr addysg a gweithwyr addysg proffesiynol, llywodraethwyr, dysgwyr, rhieni a gofalwyr yng Nghymru.

Ers 2014 mae Llywodraeth Cymru wedi:

- darparu hyfforddiant diogelwch ar-lein ar gyfer dros 5,000 o ymarferwyr addysg a gweithwyr addysg proffesiynol
- cefnogi'r gwaith o wella darpariaeth diogelwch ar-lein ysgolion trwy ddefnyddio'r adnodd 360 degree safe Cymru – mae'r adnodd ar gael ar lwyfan dysgu digidol Hwb, a'i nod yw helpu ysgolion i adolygu a gwella eu polisi ac ymarfer ym maes diogelwch ar-lein
- creu'r *Adnodd Diogelwch Ar-lein i Gymru*[2], sef cyfres o gynlluniau gwersi am ddim ar gyfer pob blwyddyn ysgol, o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 4 a thu hwnt – mae'r adnoddau wedi'u cynllunio i rymuso dysgwyr i feddwl yn feirniadol, ymddwyn yn ddiogel a chyfranogi mewn ffordd gyfrifol yn ein byd digidol
- darparu gwybodaeth am ddiogelwch ar-lein ar gyfer ymarferwyr addysg a gweithwyr addysg proffesiynol, dysgwyr, llywodraethwyr, rhieni a gofalwyr, drwy'r Parth Diogelwch Ar-lein ar lwyfan dysgu digidol Hwb ar ffurf newyddion, adnoddau, gwybodaeth a chanllawiau, a rhestri chwarae
- darparu cyllid a chymorth trwy Grant Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) Dysgu yn y Gymru Ddigidol fel bod modd i'r consortia rhanbarthol hyrwyddo dinasyddiaeth ddigidol a'r defnydd diogel a chyfrifol o dechnoleg ddigidol
- cyhoeddi'r canllawiau *Safonau a argymhellir ar gyfer hidlo'r we yn ysgolion Cymru* (2018)[3] fel sylfaen i'r broses o ddiogelu dysgwyr ar-lein; adolygwyd y safonau hyn yn 2017
- cyflwyno'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol[4] yn 2016 fel bod pob ysgol yng Nghymru yn gallu cynorthwyo dysgwyr rhwng 3 ac 16 oed i'w diogelu eu hunain ar-lein trwy sefydlu sgiliau, gwybodaeth ac agweddau digidol ledled y cwricwlwm cyfan, gan eu galluogi i ddefnyddio technolegau a systemau mewn ffordd hyderus, greadigol a beirniadol
- cefnogi Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel gyda chystadlaethau i blant ac ysgolion greu cyfleoedd i drafod diogelwch ar-lein.

---

[2] hwb.llyw.cymru/parthau/diogelwch-ar-lein/adnodd-diogelwch-ar-lein-i-gymru
[3] llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/safonau-a-argymhellir-ar-gyfer-hidlo%E2%80%99r-we-yn-ysgolion-cymru.pdf
[4] hwb.gov.wales/cwricwlwm-cymru-2008/fframwaith-cymhwysedd-digidol-fersiwn-cwricwlwm-cymru-2008/#fframwaith

## Yr ymrwymiadau fel y'u hamlinellwyd yng *Nghynllun gweithredu diogelwch ar-lein i blant a phobl ifanc yng Nghymru* (2018)

| Cyngor a chymorth | |
|---|---|
| 1. | Er mwyn cydnabod cyfraniad pwysig rhieni a gofalwyr at gadw eu plant yn ddiogel ar-lein, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu canllawiau dwyieithog ar faterion diogelwch ar-lein amrywiol er mwyn eu helpu i gadw eu teuluoedd yn ddiogel ar-lein. |
| 2. | O dro i dro, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i rannu cyngor â rhieni a gofalwyr ynglŷn â defnyddio amser o flaen sgrin yn ddiogel trwy ein hymgyrch 'Magu Plant. Rhowch amser iddo.' ar y we ac ar ein tudalennau Facebook. |
| 3. | Bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu ac yn darparu canllawiau ac adnoddau diogelwch ar-lein dwyieithog ar gyfer llywodraethwyr ysgolion er mwyn hyrwyddo dealltwriaeth o faterion diogelwch ar-lein a'u helpu gyda'u cyfrifoldeb i gadw dysgwyr yn ddiogel ar-lein yn yr ysgol. |
| 4. | Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal y Ganolfan Camfanteisio ar Blant a'u Hamddiffyn Ar-lein ar Hwb er mwyn hyrwyddo botwm yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol sy'n galluogi plant a phobl ifanc, rhieni a gofalwyr, ymarferwyr addysg, gweithwyr addysg proffesiynol a llywodraethwyr i roi gwybod am unrhyw bryderon yn ymwneud â cham-drin rhywiol ar-lein. |

| Cydweithio | |
|---|---|
| 5. | Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddatblygu a chefnogi'r Rhwydwaith Diogelwch Ar-lein Cenedlaethol, gan ddwyn ynghyd arbenigedd awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol er mwyn rhannu arferion da a datblygu dull gweithredu cynaliadwy, cyson a chadarn ym maes diogelwch ar-lein ledled Cymru. |
| 6. | Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Chanolfan Rhyngrwyd Mwy Diogel y DU i helpu i ddarparu digwyddiadau diogelwch ar-lein gan gynnwys y Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel a gynhelir bob blwyddyn, sesiynau paratoi rhanddeiliaid a sesiynau gwybodaeth Online Safety Live. |
| 7. | Bydd Llywodraeth Cymru yn cydweithio â Llywodraeth y DU i ddatblygu Strategaeth Diogelwch ar y Rhyngrwyd y DU a'r Papur Gwyn. |
| 8. | Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gyfrannu at Fwrdd Gweithredol Cyngor y DU ar gyfer Diogelwch Plant ar y Rhyngrwyd (UKCCIS) er mwyn sicrhau bod Cymru'n cael ei chynrychioli ar lefel y DU. |
| 9. | Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi'r Grŵp Diogelu mewn Addysg Cenedlaethol, gan ddwyn ynghyd arweinwyr awdurdodau lleol a phartneriaid eraill i rannu arferion da a gwneud gwaith prosiect ym maes diogelu plant. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn mynychu er mwyn cynrychioli rhaglen waith diogelwch ar-lein Hwb. |
| 10. | Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gydweithio â'r Grŵp Cynghori ar Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh), gan ystyried materion diogelwch ar-lein, fel sy'n briodol. Bydd y Grŵp Cynghori ar ABCh yn parhau i sicrhau ansawdd gwersi yn ymwneud ag ABCh pan fydd angen. |

| | |
|---|---|
| 11. | Bydd diogelwch ar-lein yn gwneud cyfraniad allweddol at addysg cydberthynas a rhywioldeb yn dilyn argymhellion y Panel Arbenigol ar Addysg Rhyw a Pherthnasoedd ym mis Mawrth 2017. |
| 12. | Bydd Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo defnydd o'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol trwy barhau i weithio gydag ysgolion i sefydlu'r sgiliau digidol, yr wybodaeth a'r agweddau sydd eu hangen ledled y cwricwlwm i ddiogelu dysgwyr ar-lein. |
| 13. | Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu cyllid trwy'r Grant Gwella Ysgolion Rhanbarthol er mwyn galluogi'r consortia rhanbarthol i hyrwyddo dinasyddiaeth ddigidol a defnydd diogel a chyfrifol o dechnoleg ddigidol. |
| 14. | Bydd Llywodraeth Cymru yn cyfrannu at Bartneriaeth Diogelwch y Rhyngrwyd Cymru (WISP) er mwyn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am raglenni gwaith diogelwch ar-lein a thrafod materion diogelwch ar-lein. |
| 15. | Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i adolygu a monitro effaith Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 a dyletswyddau awdurdodau lleol yn ymwneud â darparu addysg. |
| 16. | Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried sut i gryfhau darpariaeth diogelwch ar-lein mewn gwasanaethau addysg heblaw yn yr ysgol, gan gynnwys unedau cyfeirio disgyblion. |
| 17. | Bydd portffolios Iechyd ac Addysg Llywodraeth Cymru yn cyd-ariannu cynllun peilot i brofi darpariaeth mewngymorth iechyd meddwl ar gyfer ysgolion gan y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS). |
| 18. | Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gydag Ysgolion Arloesi trwy'r meysydd dysgu a phrofiad perthnasol, gan gynnwys Iechyd a Lles, er mwyn sicrhau bod materion diogelwch ar-lein yn llywio'r gwaith o ddatblygu fframwaith y cwricwlwm newydd. |

| **Cyfathrebu a hyrwyddo** | |
|---|---|
| 19. | Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi digwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid addysg sy'n cynnwys diogelwch ar-lein. |
| 20. | Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu Parth Diogelwch Ar-lein ar Hwb, sy'n cynnwys ffynonellau newyddion, digwyddiadau ac adnoddau diogelwch ar-lein ar gyfer plant, pobl ifanc, gweithwyr addysg proffesiynol, llywodraethwyr, rhieni a gofalwyr. |
| 21. | Bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel yng Nghymru bob blwyddyn er mwyn codi proffil a phwysigrwydd diogelwch ar-lein ledled Cymru. |
| 22. | Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio llwyfannau cyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu a chodi ymwybyddiaeth o'r amrywiaeth eang o weithgareddau diogelwch ar-lein sy'n digwydd ledled Cymru. |
| 23. | Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda SWGfL i ddarparu cylchlythyr diogelwch ar-lein dwyieithog bob mis. |

| Canllawiau a pholisi | |
|---|---|
| 24. | Bydd Llywodraeth Cymru yn diwygio ac yn diweddaru'r canllaw diogelwch statudol *Cadw dysgwyr yn ddiogel*, a fydd yn cynnwys diweddariad ar ddiogelwch ar-lein. |
| 25. | Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod materion meithrin perthynas amhriodol ar-lein a chamfanteisio'n rhywiol ar blant yn cael eu hystyried wrth ddiweddaru'r canllaw statudol *Amddiffyn Plant a Phobl Ifanc rhag Camfanteisio Rhywiol*. |
| 26. | Bydd grŵp gorchwyl a gorffen amlasiantaeth yn datblygu canllawiau ymarfer Cymru gyfan ar ddiogelu plant sydd mewn perygl o gael eu cam-drin ar-lein. Bydd Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro yn ymgynghori ar y canllawiau hyn a'u cyhoeddi ar ran Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a'r Byrddau Diogelu yng Nghymru. Bwriedir cyhoeddi'r Gweithdrefnau Amddiffyn Cenedlaethol a'r canllawiau ymarfer cysylltiedig tua dechrau 2019. |
| 27. | Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal y safonau hidlo'r we a argymhellir ar gyfer ysgolion yng Nghymru. |
| 28. | Bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu ac yn diwygio'r canllaw gwrthfwlio anstatudol *Parchu eraill*, sy'n cynnwys cyngor ar fynd i'r afael â bwlio ar-lein mewn ysgolion. |
| 29. | Bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu'r adnoddau gwrthfwlio sydd ar gael ar gyfer ysgolion ar hyn o bryd ac yn asesu unrhyw anghenion er mwyn helpu ymarferwyr addysg i fynd i'r afael â bwlio mewn lleoliadau addysg. |
| 30. | Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal canllawiau *Gwrthsafiad a pharch* ar gyfer ysgolion. |

| Ymchwil | |
|---|---|
| 31. | Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i archwilio defnydd amser o flaen sgrin gan blant yng Nghymru ar hyn o bryd er mwyn llywio datblygiad polisi yn y maes hwn. |

| Adnoddau | |
|---|---|
| 32. | Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda SWGfL i hyrwyddo a darparu mynediad i 360 degree safe Cymru, adnodd hunanasesu diogelwch ar-lein dwyieithog sydd ar gael i bob ysgol a gynhelir yng Nghymru trwy gofrestru untro gyda Hwb. Bydd cynnwys yr adnodd, yn ogystal â'r templedi polisi cysylltiedig, yn cael eu diweddaru unwaith bob dwy flynedd. |
| 33. | Bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu adnoddau diogelwch ar-lein dwyieithog ar gyfer plant ysgolion cynradd ac uwchradd yn ymwneud ag amrywiaeth o faterion diogelwch ar-lein penodol. |
| 34. | Bydd Llywodraeth Cymru yn archwilio'r adnoddau diogelwch ar-lein sydd ar gael a sut y gellir eu teilwra ar gyfer rhieni a gofalwyr sy'n darparu addysg yn y cartref. |
| 35. | Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddatblygu amrywiaeth o ddeunyddiau diogelwch ar-lein dwyieithog ar gyfer ymarferwyr addysg, gan gynnwys adnoddau ystafell ddosbarth a chanllawiau i athrawon. |
| 36. | Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu deunyddiau newydd fel bod ymarferwyr addysg yn gallu cynnal sesiynau diogelwch ar-lein ar gyfer rhieni a gofalwyr. |

| | |
|---|---|
| 37. | Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda Common Sense Media ac SWGfL i ddatblygu a chyhoeddi dros 50 o gynlluniau gwers dwyieithog ac adnoddau cysylltiedig yn ymwneud â materion diogelwch ar-lein amrywiol. |
| 38. | Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i adolygu, diweddaru a chyhoeddi'r *Adnodd Diogelwch Ar-lein i Gymru* ar Hwb. |
| 39. | Bydd Llywodraeth Cymru yn talu'n rhannol am ddatblygu adnodd camfanteisio'n rhywiol ar blant ar gyfer dysgwyr Blwyddyn 6. |
| 40. | Bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu ac yn cyflwyno adnodd archwilio diogelwch a chanllaw cysylltiedig i'w defnyddio gan ysgolion er mwyn asesu eu darpariaeth diogelu. |
| 41. | Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r NSPCC i ddarparu fersiwn dwyieithog newydd o adnoddau *Net Aware* yr NSPCC. |
| 42. | Bydd y fersiwn diweddaraf o becyn cymorth cwnsela Llywodraeth Cymru yn cynnwys pennod ar gwnsela ar-lein, gan roi arweiniad ar ddarparu gwasanaeth ar-lein diogel. |

| **Hyfforddiant a datblygiad** | |
|---|---|
| 43. | Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu rhaglen hyfforddiant gynhwysfawr yn ymwneud â diogelwch ar-lein, gan ganolbwyntio ar feysydd diogelwch ar-lein penodol. |
| 44. | Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i hyrwyddo'r modiwl *Cadw dysgwyr yn ddiogel – Diogelwch ar-lein*. |
| 45. | Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod diogelwch ar-lein yn parhau i fod yn rhan allweddol o'r holl weithgarwch yn ymwneud â chynhwysiant digidol. |
| 46. | Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid allweddol i ddarparu deunydd hyfforddiant a chymorth yn ymwneud â materion gwrthderfysgaeth. |

## Gweithgareddau a diweddariad fesul cam gweithredu

### Cyngor a chymorth

**1. Er mwyn cydnabod cyfraniad pwysig rhieni a gofalwyr at gadw eu plant yn ddiogel ar-lein, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu canllawiau dwyieithog ar faterion diogelwch ar-lein amrywiol er mwyn eu helpu i gadw eu teuluoedd yn ddiogel ar-lein.**

Mae rhieni a gofalwyr yn gwneud cyfraniad allweddol at sicrhau bod eu plant yn meddu ar yr hyder a'r gallu priodol i gadw yn ddiogel ar-lein. Fel rhan o'r prosiect diogelwch ar-lein, bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu canllaw ar gyfer rhieni a gofalwyr er mwyn eu helpu i ddeall beth mae eu plant yn ei archwilio yn yr ysgol.

Yn ystod 2017–18, aeth Llywodraeth Cymru ati i ariannu SWGfL i ddatblygu a chreu canllaw diogelwch ar-lein dwyieithog yn ymwneud â materion diogelwch ar-lein amrywiol gyda'r nod penodol o gynorthwyo rhieni a gofalwyr i gadw eu teuluoedd yn ddiogel ar-lein. Roedd hyn yn cynnwys cyfres 'Canllaw i rieni a gofalwyr ar … ' a rhestr chwarae yn cynnwys y pynciau canlynol.

- Canllaw i rieni a gofalwyr ar sgoriau oedran mewn apiau a gemau.
- Canllaw i rieni a gofalwyr ar Google SafeSearch a Modd Diogelwch YouTube.
- Canllaw i rieni a gofalwyr ar siarad â'ch plentyn am gadw'n ddiogel ar-lein.
- Canllaw i rieni a gofalwyr ar ddefnyddio'r adnoddau diogelwch sy'n rhan o setiau teledu clyfar a gwasanaethau ffrydio ar alw.
- Canllaw i rieni a gofalwyr am rannu gwybodaeth a delweddau ar-lein.
- Ffaith neu ffuglen: Peidiwch â chael eich twyllo ar-lein (rhieni a gofalwyr).

Er mwyn manteisio ar lwyddiant y gyfres, bydd Llywodraeth Cymru yn ariannu blwyddyn arall o'r gyfres, gyda phynciau wedi eu nodi gan rieni a gofalwyr mewn grwpiau ffocws diogelwch ar-lein a gynhaliwyd ledled Cymru tua dechrau 2017.

**Diweddariad ar gyfer 2019**

Yn ystod 2018–19, roedd Llywodraeth Cymru wedi parhau i ariannu'r gyfres 'Canllaw i rieni a gofalwyr ar ... ', ac fe gyhoeddwyd canllawiau ar y pynciau canlynol.

- Canllaw i rieni a gofalwyr ar fanteision a risgiau gemau ar-lein. hwb.llyw.cymru/repository/resource/63199e08-3a41-45e8-a8ce-dfb98e071d92/cy
- Canllaw i rieni a gofalwyr ar apiau, teganau cysylltiedig a llwyfannau newydd. hwb.llyw.cymru/repository/resource/0716640b-655e-4d9e-aa9f-3a5386b3764b/cy
- Canllaw i rieni a gofalwyr ar gyfryngau cymdeithasol. hwb.llyw.cymru/parthau/diogelwch-ar-lein/repository/resource/aba3e69e-58c4-4253-9ba6-1267064b8a1e/cy
- Canllaw i rieni a gofalwyr am effaith bosibl y rhyngrwyd ar les eu plentyn. hwb.llyw.cymru/parthau/diogelwch-ar-lein/repository/resource/ea191c6e-fa2b-426b-b8ce-bfed2f388510/cy
- Canllaw i rieni a gofalwyr am siarad â'ch plentyn neu'ch plentyn yn ei arddegau am eu perthynas â phobl ar-lein. hwb.llyw.cymru/parthau/diogelwch-ar-lein/repository/resource/d112f8d3-356d-4532-905b-2241af6f4cee/cy

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i barhau â'r gyfres hon. Byddant yn ehangu'r gynulleidfa er mwyn cymryd y rôl bwysig y mae teuluoedd estynedig yn ei chwarae i ystyriaeth wrth gadw plant yn ddiogel ar-lein. Yn ystod 2019–20, bydd Llywodraeth Cymru yn cynhyrchu chwe chanllaw i'r teulu yn dwyn y teitlau canlynol.

- Canllaw i'r teulu ar siarad am amser o flaen sgrin.
- Canllaw i'r teulu ar siarad am bornograffi.
- Canllaw i'r teulu ar siarad am fwlio ar-lein.
- Canllaw i'r teulu ar siarad am feithrin perthynas amhriodol ar-lein.
- Canllaw i'r teulu ar siarad am secstio.
- Canllaw i'r teulu ar siarad am radicaliaeth ac eithafiaeth.

I gyd-fynd â'r canllawiau hyn i'r teulu, mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu'r gwaith o gynhyrchu cyfres o chwe ffilm fer i'r teulu sy'n ymwneud â 'Dechrau'r sgwrs'. Bydd y ffilmiau'n cael eu hanelu at deuluoedd (gan gynnwys rhieni, gofalwyr, teidiau a neiniau, a'r teulu estynedig), a byddant yn seiliedig ar yr wybodaeth sy'n cael ei darparu gan arbenigwyr yn y maes a barn academaidd o bob rhan o'r DU. Caiff y ffilmiau eu lansio drwy gydol blwyddyn academaidd 2019–20, a byddant yn rhoi sylw i'r un pynciau a'r canllawiau i'r teulu.

- Dechrau'r sgwrs am amser o flaen sgrin.
- Dechrau'r sgwrs am bornograffi.
- Dechrau'r sgwrs am fwlio ar-lein.
- Dechrau'r sgwrs am feithrin perthynas amhriodol ar-lein.
- Dechrau'r sgwrs am secstio.
- Dechrau'r sgwrs am radicaliaeth ac eithafiaeth.

**Statws y cam gweithredu: Parhaus.**

**2. O dro i dro, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i rannu cyngor â rhieni a gofalwyr ynglŷn â defnyddio amser o flaen sgrin yn ddiogel trwy ein hymgyrch 'Magu Plant. Rhowch amser iddo.' ar y we ac ar ein tudalennau Facebook.**

Lansiwyd ein hymgyrch 'Magu Plant. Rhowch amser iddo.' ym mis Tachwedd 2015. Mae'r ymgyrch yn hyrwyddo negeseuon rhianta cadarnhaol mewn sawl ffordd wahanol, gan gynnwys trwy'r cyfryngau cymdeithasol, cyfryngau print a hysbysebu digidol. Mae gwefan benodol a thudalen Facebook yn darparu cyngor a gwybodaeth yn ymwneud â rhianta, ac yn cyfeirio rhieni/gofalwyr i ffynonellau cymorth eraill. Hefyd, mae llyfryn a chyfres o daflenni gwybodaeth a chyngor yn ymwneud ag ymdrin â phryderon rhianta cyffredin yn cael eu darparu i rieni/gofalwyr.

Mewn arolwg anffurfiol o 1,490 o rieni plant dan bump oed yng Nghymru ym mis Mawrth 2016, nododd dros chwarter ohonynt fod defnydd eu plentyn o dechnoleg, fel ffonau clyfar, cyfrifiaduron, llechi a dyfeisiau tebyg, yn un o'u tri phrif bryder fel rhieni.

Mae amser o flaen sgrin yn cyfeirio at faint o amser y mae plant yn ei dreulio o flaen sgrin yn gwylio'r teledu neu'n chwarae ar gyfrifiadur, llechen neu ffôn clyfar. Yn ôl yr argymhellion rhianta presennol, dylid cyfyngu faint o amser y mae plant yn ei dreulio o flaen sgrin, yn enwedig i blant pump oed ac iau.

Gall rhieni/gofalwyr leihau rhai o effeithiau negyddol defnyddio sgriniau trwy rannu amser o flaen sgrin gyda'u plant. Mae cyngor i rieni/gofalwyr sy'n cael ei ddarparu ar wefan yr ymgyrch yn canolbwyntio ar sut maent yn gallu cynnwys y cyfryngau digidol yn eu bywyd teuluol. Mae cyngor penodol yn cael ei ddarparu ar ddiogelwch ar-lein, cynnwys sy'n addas i'r oedran, pennu cyfyngiadau, a dangos esiampl o sut a phryd i ddefnyddio technoleg.

**Diweddariad ar gyfer 2019**

Rydym yn bwriadu ehangu'r ystod oedran ar gyfer 'Magu Plant. Rhowch amser iddo.' hyd at 18 oed, er mwyn cefnogi rhieni/gofalwyr sydd â phlant hŷn wrth iddynt fynd trwy newidiadau emosiynol a hormonaidd a allai arwain yn y pen draw at newid deinameg eu perthynas. Bydd yr adnoddau a'r polisïau newydd sydd yn yr arfaeth i rieni/gofalwyr yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol am ffyrdd o fyw, iechyd, addysg a diogelwch (gan gynnwys diogelwch ar-lein), fel rhannu, gwneud ffrindiau, bwlio, straen arholiadau, a gwahaniaethau o ran datblygiad yr ymennydd. I sicrhau cywirdeb, byddwn yn cyfeirio at ffynonellau gwybodaeth dibynadwy, ac yn gweithio mewn partneriaeth â'n cydweithwyr mewn adrannau eraill i wella'r ddarpariaeth yn hytrach na chynnig yr un ddarpariaeth. Byddwn hefyd yn cydweithio'n agos â'r gweithwyr proffesiynol yn y maes.

Yn ogystal, byddwn yn comisiynu cystadleuaeth 'Wynebau Newydd' i ddod o hyd i bedwar teulu newydd sydd â phlant hŷn i rannu eu profiadau personol am bleserau a heriau magu teulu ifanc, gan obeithio y bydd rhieni/gofalwyr eraill yn cael budd o'u hanes.

**Statws y cam gweithredu: Parhaus.**

**3. Bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu ac yn darparu canllawiau ac adnoddau diogelwch ar-lein dwyieithog ar gyfer llywodraethwyr ysgolion er mwyn hyrwyddo dealltwriaeth o faterion diogelwch ar-lein a'u helpu gyda'u cyfrifoldeb i gadw dysgwyr yn eu hysgolion yn ddiogel ar-lein.**

Er mwyn cydnabod cyfraniad allweddol llywodraethwyr at ddiogelu plant mewn ysgolion, ac ar ôl gwrando ar adborth gan randdeiliaid yn 2017–18, aeth Llywodraeth Cymru ati i ariannu'r broses o ddatblygu adnoddau ar gyfer llywodraethwyr trwy ein contractwr arbenigol SWGfL. Y nod oedd datblygu canllawiau ac adnoddau diogelwch ar-lein dwyieithog ar gyfer llywodraethwyr.

Roedd yr adnoddau ar gyfer llywodraethwyr yn adlewyrchu'r pynciau a gafodd eu creu ar gyfer dysgwyr, rhieni a gofalwyr, ac ymarferwyr addysg a gweithwyr addysg proffesiynol.

**Diweddariad ar gyfer 2019**

Yn ystod 2018–19, aeth Llywodraeth Cymru ati i ariannu'r gwaith o greu chwe adnodd rhestr chwarae arall ar gyfer llywodraethwyr yn ymwneud â meysydd allweddol diogelwch ar-lein. Mae'r adnoddau sydd wedi'u cynhyrchu yn dwyn y teitlau canlynol.

- Effaith insta: Delwedd o'r corff a hunan-barch mewn oes ddigidol. hwb.llyw.cymru/news/articles/2f30893d-8c2a-4c8b-9217-5b3d13225aeb
- Iechyd meddwl a'r rhyngrwyd. hwb.llyw.cymru/parthau/diogelwch-ar-lein/news/articles/c34a2a0c-9e23-4fc1-8784-3ea8ee14d062
- Ochr dywyllach y rhyngrwyd. hwb.llyw.cymru/parthau/diogelwch-ar-lein/news/articles/716e13f9-8cb8-4ac9-be8b-cbaa9ae9ca58
- Mynd i'r afael â phornograffi. hwb.llyw.cymru/parthau/diogelwch-ar-lein/news/articles/7ec6926a-7a64-40c4-9001-a1f6ac1a280f
- Ffrydio byw – Mynd yn fyw ar-lein. hwb.llyw.cymru/parthau/diogelwch-ar-lein/news/articles/962906ca-7290-402d-b397-7f8e96e9be51
- Preifatrwydd a data. hwb.llyw.cymru/parthau/diogelwch-ar-lein/news/articles/8e9b7f6f-cdd9-4863-8a37-5fac5b4017ad

Er mwyn parhau i gynyddu nifer yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer llywodraethwyr yn ystod 2019–20, mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu’r gwaith o gynhyrchu’r adnoddau canlynol ar gyfer llywodraethwyr yn benodol.

- Enw da neu ddrwg ar-lein.
- Amser o flaen sgrin, technoleg ac iechyd meddwl.
- Caniatâd mewn byd ar-lein.
- Gwybodaeth anghywir.
- Cynnwys anghyfreithiol a sarhaus.
- Iaith sy’n ennyn casineb ar-lein.

**Statws y cam gweithredu: Parhaus.**

**4. Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal Ganolfan Camfanteisio ar Blant a'u Hamddiffyn Ar-lein ar Hwb er mwyn hyrwyddo botwm yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol sy'n galluogi plant a phobl ifanc, rhieni a gofalwyr, ymarferwyr addysg, gweithwyr addysg proffesiynol a llywodraethwyr i roi gwybod am unrhyw bryderon yn ymwneud â cham-drin rhywiol ar-lein.**

Mae botwm Click CEOP yn un o asedau Canolfan Camfanteisio ar Blant a'u Hamddiffyn Ar-lein (CEOP) yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol. Mae'n gweithio i amddiffyn plant a phobl ifanc yn erbyn cam-drin rhywiol a chamfanteisio'n rhywiol ar-lein ac all-lein.

Mae'r botwm wedi'i ddatblygu i gynnig mynediad i gyngor, cymorth a chefnogaeth ddibynadwy yn ymwneud â diogelwch ar-lein ar gyfer plant a phobl ifanc, rhieni a gofalwyr, ymarferwyr addysg a gweithwyr addysg proffesiynol, a llywodraethwyr sy'n gweithio gyda'r grwpiau hyn. Hefyd, mae'n darparu mynediad i ddull ar-lein o roi gwybod yn uniongyrchol i CEOP am achosion hysbys neu bosibl o gamfanteisio'n rhywiol ar blant neu gam-drin plant. Dyma ddull cyfleus a llai brawychus o bosibl o roi gwybod am droseddau o natur sensitif, yn wahanol i roi gwybod i'r heddlu lleol wyneb yn wyneb neu dros y ffôn.

Gall plant a phobl ifanc, rhieni neu ofalwyr, ymarferwyr addysg neu weithwyr addysg proffesiynol, neu lywodraethwyr sy'n gweithio gyda'r grwpiau hyn, roi gwybod i'r CEOP am achosion posibl. Mae modd rhoi gwybod i'r CEOP bedair awr ar hugain bob dydd. Ystyrir bod pawb sy'n rhoi gwybod i'r CEOP yn rhoi gwybod am drosedd, felly ni allant aros yn ddienw.

**Diweddariad ar gyfer 2019**

Mae botwm CEOP yn un o'r nodweddion parhaol ar yr hafan ym Mharth Diogelwch Ar-lein Hwb. Gydag un clic o'r botwm yn unig, fe gewch eich cymryd i dudalen CEOP lle gall unrhyw un roi gwybod a ydynt yn poeni am gam-drin rhywiol ar-lein neu'r ffordd y mae rhywun wedi bod yn cyfathrebu â chi ar-lein. Bydd y botwm yn aros ar hafan Hwb, a byddwn yn cyhoeddi erthyglau newyddion ar y Parth Diogelwch Ar-lein o bryd i'w gilydd i hybu'r defnydd o'r botwm ac i godi ymwybyddiaeth ohono.

**Statws y cam gweithredu: Cyflawnwyd.**

## Cydweithio

**5. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddatblygu a chefnogi'r Rhwydwaith Diogelwch Ar-lein Cenedlaethol, gan ddwyn ynghyd arbenigedd awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol er mwyn rhannu arferion da a datblygu dull gweithredu cynaliadwy, cyson a chadarn ym maes diogelwch ar-lein ledled Cymru.**

Y Rhwydwaith Diogelwch Ar-lein Cenedlaethol yw'r rhwydwaith o weithwyr proffesiynol o leoliadau addysg, awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol a sefydliadau eraill ledled Cymru sy'n helpu i ddatblygu arferion diogelwch ar-lein effeithiol.

Sefydlwyd y rhwydwaith ymarferwyr ym mis Tachwedd 2017 i hwyluso deialog ledled Cymru er mwyn helpu i ddatblygu trefniadau cadarn ar gyfer diogelwch ar-lein yn y wlad.

Mae'r rhwydwaith yn cyfarfod deirgwaith y flwyddyn gan ganolbwyntio'n bennaf ar nodi a datblygu trefniadau i gefnogi ymarferwyr i gyflawni'r amcan cyffredin o helpu i gadw plant a phobl ifanc yn ddiogel ar-lein.

Mae'r rhwydwaith yn trafod materion sy'n effeithio ar ddiogelwch ar-lein ac yn darparu cyngor arbenigol i Lywodraeth Cymru er mwyn llywio'r rhaglen diogelwch ar-lein, sy'n rhan o Raglen Hwb ehangach.

**Diweddariad ar gyfer 2019**

Roedd y Bwrdd Gwella Effeithlonrwydd, a oedd yn cael ei gadeirio gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid ar y pryd, wedi gofyn i swyddogion ystyried sut y byddwn yn meithrin cysylltiadau â'n rhanddeiliaid fel rhan o'r ymarfer hwnnw i gynnal adolygiad o'r holl grwpiau cynghorol ar draws Llywodraeth Cymru. Gofynnwyd i swyddogion ystyried eu heffeithlonrwydd a lleihau unrhyw ddyblygu a biwrocratiaeth ddiangen ar gyfer ein rhanddeiliaid.

Yn dilyn ein hadolygiad ar draws Llywodraeth Cymru, penderfynwyd y dylai'r Rhwydwaith Diogelwch Ar-lein Cenedlaethol gael ei ymgorffori i'r Grŵp Diogelu mewn Addysg, gan fod diogelwch ar-lein yn hanfodol ac yn fater diogelu pendant (gweler Cam gweithredu 9).

**Statws y cam gweithredu: Ar ben.**

**6. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Chanolfan Rhyngrwyd Mwy Diogel y DU i helpu i ddarparu digwyddiadau diogelwch ar-lein gan gynnwys y Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel a gynhelir bob blwyddyn, sesiynau paratoi rhanddeiliaid a sesiynau gwybodaeth 'Diogelwch Ar-lein yn Fyw'.**

Fel rhan o'r gwaith allgymorth ar raglen 'Online Safety Briefings' Canolfan Rhyngrwyd Mwy Diogel y DU, bydd SWGfL, fel un o bartneriaid y Ganolfan Rhyngrwyd Mwy Diogel y DU, yn cynnal pymtheg o sesiynau briffio dwy awr o hyd ledled Cymru. Mae'r sesiynau'n darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am dueddiadau, technolegau, materion ac ymchwil gyfoes yn ymwneud â diogelwch ar-lein, yn ogystal â chyfeirio cynrychiolwyr i adnoddau a chyngor. Mae'r digwyddiadau wedi'u cynllunio'n benodol ar gyfer unrhyw weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc gan gynnwys staff ysgol, gweithwyr diogelu proffesiynol, gweithwyr ieuenctid, yr heddlu, gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr iechyd proffesiynol.

Bydd Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel ar gyfer rhanddeiliaid yn trafod y cynlluniau cydweithredol ar gyfer Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel 2019.

**Diweddariad ar gyfer 2019**

Yn 2018–19 cafodd un ar ddeg o 'Online Safety Briefings' eu cyflwyno fel rhan o waith maes Canolfan Rhyngrwyd Mwy Diogel y DU a oedd yn cynnig trosolwg o ddiogelwch ar-lein i 158 o bobl. Cafodd y sesiynau eu cynnal ym Mhorthcawl, Llanelli, Bae Colwyn, Felinfach, Caerdydd, Glannau Dyfrdwy, Ynys Môn, Aberystwyth, Caerffili, Trefynwy a Sili. Roedd y rheini a oedd yn bresennol yn cynnwys cynrychiolwyr o feysydd addysg, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. O ganlyniad i'r niferoedd isel a oedd wedi cofrestru, bu rhaid canslo pedair sesiwn.

Yn ystod 2019–20, bydd Canolfan Rhyngrwyd Mwy Diogel y DU yn cyflwyno deg o 'Online Safety Briefings' yng Nghymru. Bydd y sesiynau'n darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am dueddiadau, technolegau, materion ac ymchwil gyfoes yn ymwneud â diogelwch ar-lein, yn ogystal â chyfeirio cynrychiolwyr i adnoddau a chyngor.

Ddydd Iau 8 Tachwedd 2018, roedd Canolfan Rhyngrwyd Mwy Diogel y DU wedi cynnal digwyddiad Cynllunio Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel ar gyfer Rhanddeiliaid yng Nghanolfan Mileniwm Cymru ym Mae Caerdydd. Roedd y digwyddiad hwn, a oedd yn cynnwys amrywiaeth o randdeiliaid, yn cynnig y cyfle iddynt glywed yn uniongyrchol gan Ganolfan Rhyngrwyd Mwy Diogel y DU am yr hyn y byddai ymgyrch 2019 yn ei gynnwys, sut y gallent ei gefnogi ac i rannu syniadau am sut y gallent gyfrannu ato.

Mae'r gwaith cynllunio eisoes ar waith i nodi Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel 2020, a gaiff ei gynnal ar 11 Chwefror 2020 yng Nghymru.

Gan ddatblygu ar lwyddiant y digwyddiad diwethaf, bydd Canolfan Rhyngrwyd Mwy Diogel y DU yn cynnal Digwyddiad Cynllunio Diwrnod Defnyddio’r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel 2020 ar 13 Tachwedd 2019 i gefnogi sefydliadau i gymryd rhan mewn Diwrnod Defnyddio’r Rhyngrywd yn Fwy Diogel 2020.

Lansiwyd cystadleuaeth i ysgolion ar gyfer Diwrnod Defnyddio’r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel ar Barth Diogelwch Ar-lein ar Hwbym mis Medi 2019. Bydd enillydd y gystadleuaeth yn cael ei gyhoeddi yn nigwyddiad swyddogol Diwrnod Defnyddio’r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel ar Ddiwrnod Defnyddio’r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel ei hun.

**Statws y cam gweithredu: Parhaus.**

## 7. Bydd Llywodraeth Cymru yn cydweithio â Llywodraeth y DU i ddatblygu Strategaeth Diogelwch ar y Rhyngrwyd y DU a'r Papur Gwyn.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio â Llywodraeth y DU ac yn helpu i ddatblygu Strategaeth Diogelwch ar y Rhyngrwyd y DU.

**Diweddariad ar gyfer 2019**

Yn ystod 2018–19, mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i gydweithio â Llywodraeth y DU ac wedi cyfrannu at ddatblygu Strategaeth Diogelwch ar y Rhyngrwyd y DU.

Roedd Llywodraeth Cymru wedi cynnal trafodaethau â'r Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon a'r Swyddfa Gartref yn ystod y cyfnod cyn cyhoeddi'r Papur Gwyn 'Online Harms', ac roedd wedi cyfrannu at y gwaith cyfredol a oedd yn cael effaith ar ddiogelwch ar-lein yng Nghymru. Yn ystod y cyfnod ymgynghori bu swyddogion Llywodraeth Cymru yn cyfarfod â swyddogion o'r Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon ac â'r Swyddfa Gartref i drafod manylion y Papur Gwyn 'Online Harms' a'r goblygiadau ar gyfer gweinyddiaethau datganoledig, ac wedi hynny cyflwynwyd ymtaeb gan Lywodraeth Cymru yn ymateb i'r Papur Gwyn 'Online Harms'.

Yn ystod 2019–20, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gydweithio â Llywodraeth y DU i ddatblygu Strategaeth Diogelwch ar y Rhyngrwyd y DU ac agenda 'Online Harms'.

**Statws y cam gweithredu: Parhaus.**

## 8. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gyfrannu at Fwrdd Gweithredol Cyngor y DU ar gyfer Diogelwch Plant ar y Rhyngrwyd (UKCCIS) er mwyn sicrhau bod Cymru'n cael ei chynrychioli ar lefel y DU.

Mae Cyngor y DU ar gyfer Diogelwch Plant ar y Rhyngrwyd (UKCCIS) yn grŵp o dros 200 o sefydliadau o sectorau'r llywodraeth, diwydiant, y gyfraith, y byd academaidd ac elusennau sy'n gweithio mewn partneriaeth i helpu i gadw plant a phobl ifanc yn ddiogel ar-lein. Sefydlwyd y cyngor yn 2010 yn dilyn adolygiad gan yr Athro Tanya Byron, ac mae'n trafod materion perthnasol yn ymwneud â defnydd plant o'r rhyngrwyd, gan roi camau gweithredu ar waith.

**Diweddariad ar gyfer 2019**

Olynydd Cyngor y DU ar Ddiogelwch Plant ar y Rhyngrwyd (UKCCIS) yw Cyngor y DU ar Ddiogelwch ar y Rhyngrwyd (UKCIS), gyda chwmpas estynedig i wella diogelwch ar-lein i bawb yn y DU.

Mae Bwrdd Gweithredol UKCIS yn dwyn ynghyd arbenigedd o amrywiaeth o sefydliadau yn y diwydiant technoleg, cymdeithas sifil a'r sector cyhoeddus. Yn ystod 2018–19, roedd Llywodraeth Cymru wedi cael ei chynrychioli mewn cyfarfodydd Bwrdd Gweithredol UKCIS, gan sicrhau bod Cymru'n cael ei chynrychioli ar lefel y DU. Yn ddiweddar mae Llywodraeth Cymru wedi dod yn aelod o Weithgor Addysg UKCIS.

Yn ystod 2019–20, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gael ei chynrychioli mewn cyfarfodydd Bwrdd Gweithredol UKCIS a Gweithgor Addysg UKCIS.

**Statws y cam gweithredu: Parhaus.**

**9. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi'r Grŵp Diogelu mewn Addysg Cenedlaethol, gan ddwyn ynghyd arweinwyr awdurdodau lleol a phartneriaid eraill i rannu arferion da a gwneud gwaith prosiect ym maes diogelu plant. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn mynychu er mwyn cynrychioli rhaglen waith diogelwch ar-lein Hwb.**

Mae'r Grŵp Diogelu mewn Addysg yn cynnwys arweinwyr diogelu ym mhob un o awdurdodau lleol Cymru, yn ogystal â sefydliadau eraill sydd â diddordeb fel Estyn a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC). Mae'r grŵp yn cyfarfod deirgwaith y flwyddyn er mwyn rhannu arferion da a gweithredu rhaglen waith y cytunir arni. Hefyd, mae'r grŵp yn gweithredu fel ymgynghorwyr anffurfiol ar gyfer polisïau a phrosiectau Llywodraeth Cymru.

**Diweddariad ar gyfer 2019**

Mae'r Grŵp Diogelu mewn Addysg wedi cyfarfod teirgwaith yn ystod 2018–19. Yn ogystal â rhannu arferion da mewn cyfarfodydd, mae'r grŵp wedi helpu i ddatblygu'r canllawiau statudol diwygiedig hefyd, sef *Cadw dysgwyr yn ddiogel*, ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus. Mae'r Grŵp Diogelu mewn Addysg yn cael gwybod y newyddion diweddaraf am y Rhaglen Ddiogelwch Ar-lein, sy'n cynnwys manylion am adnoddau a digwyddiadau sydd newydd gael eu cyhoeddi.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi'r Grŵp Diogelu mewn Addysg, gan ddwyn ynghyd arweinwyr awdurdodau lleol a phartneriaid eraill i rannu arferion da a gwneud gwaith prosiect ym maes diogelu plant. Gofynnir i aelodau gefnogi'r gwaith o weithredu'r canllawiau diwygiedig *Cadw dysgwyr yn ddiogel*, yn dilyn yr ymgynghoriad.

Bellach, mae diogelwch ar-lein yn eitem safonol ar agenda'r Grŵp Diogelu mewn Addysg, a bydd hynny'n parhau.

**Statws y cam gweithredu: Parhaus.**

**10. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gydweithio a’r Grŵp Cynghori ar Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh), gan ystyried materion diogelwch ar-lein, fel sy’n briodol. Bydd y Grŵp Cynghori ar ABCh yn parhau i sicrhau ansawdd gwersi yn ymwneud ag ABCh pan fydd angen.**

Mae’r Grŵp Cynghori ar Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh) wedi’i sefydlu i ddarparu fforwm i drafod dulliau posibl o helpu ysgolion i ddarparu sesiynau o ansawdd uchel yn ymwneud â’r fframwaith ABCh.

Diben y Grŵp Cynghori ar ABCh yw darparu cyngor ac arweiniad ac amlygu cyfleoedd i helpu ysgolion i ddarparu sesiynau ABCh o ansawdd uchel.

Fel arbenigwyr cydnabyddedig yn eu meysydd, mae aelodau’r grŵp yn darparu cyngor ar effaith diwygio’r cwricwlwm yng Nghymru o safbwynt darpariaeth ABCh a’r cysylltiadau â Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles Cwricwlwm i Gymru 2022.

Hefyd, mae aelodau’r grŵp yn sicrhau ansawdd adnoddau dysgu ac addysgu cyn eu bod yn cael eu cyhoeddi a’u cynnal ar Hwb, y llwyfan dysgu digidol ar gyfer Cymru. Mae hyn yn sicrhau bod cymorth addysgu cyson o ansawdd uchel ar gael yn hwylus i ymarferwyr.

**Diweddariad ar gyfer 2019**

Ma’r Grŵp Cynghori ar Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh) yn cyfarfod teirgwaith y flwyddyn i sicrhau ansawdd adnoddau addysgu a dysgu cyn iddynt gael eu cyhoeddi a’u rhoi ar wefan Hwb. Fel arbenigwyr cydnabyddedig yn eu meysydd, gofynnwyd i aelodau’r grŵp ystyried a darparu cyngor ar effaith diwygio’r cwricwlwm yng Nghymru o safbwynt darpariaeth ABCh a’r cysylltiadau â Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles Cwricwlwm i Gymru 2022.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddefnyddio’r Grŵp Cynghori ar ABCh fel cyfrwng sicrhau ansawdd ar gyfer gwersi sy’n ymwneud ag ABCh pan fydd angen, gan gynnwys ystyried materion diogelwch ar-lein fel y bo’n briodol.

**Statws y cam gweithredu: Parhaus.**

## 11. Bydd diogelwch ar-lein yn gwneud cyfraniad allweddol at addysg cydberthynas a rhywioldeb yn dilyn argymhellion y Panel Arbenigol ar Addysg Rhyw a Pherthnasoedd ym mis Mawrth 2017.

Roedd diogelwch ar-lein yn un o bynciau allweddol yr argymhellion a gyflwynwyd gan y Panel Arbenigol ar Addysg Rhyw a Pherthnasoedd ym mis Rhagfyr 2017. Derbyniwyd yr argymhellion hyn mewn egwyddor gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ar y pryd ym mis Mai 2018. Bydd diogelwch ar-lein yn rhan allweddol o addysg cydberthynas a rhywioldeb, sef y teitl newydd ar gyfer addysg rhyw a pherthnasoedd. Darperir canllaw newydd yn 2019.

**Diweddariad ar gyfer 2019**

Roedd Llywodraeth Cymru wedi derbyn holl argymhellion y Panel Arbenigol ar Addysg Rhyw a Pherthnasoedd ym mis Mai 2018[5]. I gefnogi gwaith datblygu Cwricwlwm i Gymru 2022, mae cadeirydd y Panel Arbenigol ar Addysg Rhyw a Pherthnasoedd (yr Athro Renold) wedi cydweithio ag Ysgolion Arloesi Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles i sicrhau bod eu dulliau gweithredu'n cael eu cydgysylltu a bod gwaith yr arloeswyr yn seiliedig ar y gwaith a wneir gan y panel.

Bydd y dystiolaeth gynhwysfawr a gasglwyd gan y Panel Arbenigol ar Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yn ein helpu wrth inni fynd ati i wella darpariaeth addysg cydberthynas a rhywioldeb mewn ysgolion, yn y cwricwlwm presennol a'r un newydd.

Mae addysg rhwy a pherthnasoedd wedi cael ei ailenwi i addysg cydberthynas a rhywioldeb. Mae'r newid mewn wnw wedi seilio ar ddifiniad Sefydliad Iechyd y Byd o addysg rhwyioldeb a bydd yn annog ysgolion i ystyried y pynciau ehangach a nodwyd yn adroddiad y panel arbenigol a'r cysylltiadau posibl â meysydd eraill.

Yn gynharch eleni gwnaethom ymgynghori ar ganllawiau drafft addysg cydberthynas a rhywioldeb a chyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ym mis Gorffennaf 2019.

**Statws y cam gweithredu: Ar y gweill.**

[5] llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/dyfodol-y-cwricwlwm-addysg-rhyw-a-pherthnasoedd-yng-nghymru.pdf

## 12. Bydd Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo defnydd o'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol trwy barhau i weithio gydag ysgolion i sefydlu'r sgiliau digidol, yr wybodaeth a'r agweddau sydd eu hangen ledled y cwricwlwm i ddiogelu dysgwyr ar-lein.

Cyflwynwyd y Fframwaith Cymhwysedd Digidol ym mis Medi 2016 ac mae'n cynorthwyo dysgwyr i'w hamddiffyn eu hunain ar-lein trwy fabwysiadu'r sgiliau, yr wybodaeth a'r agweddau digidol ledled y cwricwlwm cyfan sy'n galluogi'r defnydd hyderus, creadigol a beirniadol o dechnolegau a systemau.

Mae gan y fframwaith bedwar llinyn o bwysigrwydd cyfartal (Dinasyddiaeth, Rhyngweithio a chydweithio, Cynhyrchu, a Data a meddwl cyfrifiadurol).

Mae'r llinyn Dinasyddiaeth yn canolbwyntio ar ddysgwyr yn datblygu sgiliau ac ymddygiad i wneud cyfraniad cadarnhaol at y byd digidol o'u cwmpas, gan gynnwys eu hamddiffyn eu hunain ar-lein. Mae'r llinyn Rhyngweithio a chydweithio yn caniatáu i ddysgwyr archwilio dulliau cyfathrebu ffurfiol ac anffurfiol gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol a negeseua gwib. Yn ogystal ag ystyried sut i storio data, bydd dysgwyr yn ystyried goblygiadau deddfau data a sut i rannu gwybodaeth yn briodol.

Mae Llywodraeth Cymru eisiau sicrhau bod pob athro yn gallu cynnwys cymhwysedd digidol yn eu gwersi yn hyderus. Mae'r Ysgolion Arloesi Digidol wrthi'n helpu ysgolion eraill i gyflwyno'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol, ac mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i gynnal y momentwm hwn er mwyn sicrhau ei bod hi a'r consortia rhanbarthol yn cefnogi ysgolion trwy ddarparu'r arbenigedd gofynnol. Hefyd, mae'r Ysgolion Arloesi Digidol yn parhau i ddatblygu deunyddiau a fydd ar gael i bob ysgol ar Hwb. Hefyd, mae'r Arloeswyr Digidol yn gweithio ochr yn ochr ag Arloeswyr y Cwricwlwm i ddatblygu'r meysydd dysgu a phrofiad newydd er mwyn sicrhau bod cymhwysedd digidol yn cael ei sefydlu yn effeithiol ledled Cwricwlwm i Gymru 2022.

**Diweddariad ar gyfer 2019**

Roedd swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio ochr yn ochr â'n Harloeswyr Digidol a'r consortia rhanbarthol i sicrhau bod ein disgwyliadau'n cael eu cyfleu'n glir i ysgolion. Roeddem wedi atgyfnerthu dulliau cyfathrebu, gan gynnwys newyddion am ddiweddaru deunyddiau gwybodaeth, hybu pedwar animeiddiad newydd o 'linynau' y Fframwaith Cymhwysedd Digidol, astudiaethau achos ysgolion, a fersiwn *Dysg* o'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol.

Gan weithio ar y cyd â'r Arloeswyr Digidol, mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu deunyddiau atodol pellach sydd ar gael ar Hwb. Mae tystiolaeth gan Estyn yn nodi bod ysgolion wedi derbyn yr her i ymgorffori gwaith cymhwysedd digidol i'w darpariaeth, ac mae digon o enghreifftiau o arferion arloesol a diddorol o bob rhan o Gymru.

Mae cymhwysedd digidol yn gyfrifoldeb trawsgwricwlaidd yng Nghwricwlwm i Gymru 2022. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi ysgolion i ymgorffori cymhwysedd digidol yn eu darpariaeth.

**Statws y cam gweithredu: Parhaus.**

## 13. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu cyllid trwy’r Grant Gwella Ysgolion Rhanbarthol er mwyn galluogi’r consortia rhanbarthol i hyrwyddo dinasyddiaeth ddigidol a defnydd diogel a chyfrifol o dechnoleg ddigidol.

Mae’r rhaglen dair blynedd a ddechreuodd ym mis Ionawr 2014 y cyfeiriwyd ati gynt fel Grant Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) Dysgu yn y Gymru Ddigidol (Cam 2) wedi parhau. Mae cyllid grant ychwanegol gwerth £1.5 miliwn wedi’i gytuno er mwyn parhau i gefnogi’r Rhaglen Hwb ymysg consortia rhanbarthol am dair blynedd rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2019.

Mae gweithgareddau’n canolbwyntio ar:

- ddarparu cymorth i ymarferwyr mewn ysgolion er mwyn datblygu eu hyder a’u gallu wrth ddefnyddio’r ystod o adnoddau ac offerynnau digidol sydd ar gael trwy’r rhaglen Dysgu yn y Gymru Ddigidol
- darparu gallu ar gyfer cymorth ‘Arweinydd Digidol’ arbenigol a fydd yn cydgysylltu cymorth ar gyfer ysgolion ar draws y consortiwm rhanbarthol wrth fabwysiadu a defnyddio adnoddau a gweithgareddau Dysgu yn y Gymru Ddigidol
- hyrwyddo dinasyddiaeth ddigidol mewn perthynas â’r defnydd diogel a chyfrifol o offerynnau ac adnoddau sydd ar gael trwy’r rhaglen Dysgu yn y Gymru Ddigidol, a thechnoleg ddigidol yn ehangach
- cynorthwyo ymarferwyr i ddatblygu eu sgiliau arweinyddiaeth a llythrennedd digidol eu hunain yn unol â’r broses o ddatblygu a chyflwyno’r Fframwaith Cymhwysedd Digidol a Chwricwlwm i Gymru 2022
- cefnogi datblygiad parhaus y rhaglen Dysgu yn y Gymru Ddigidol trwy gynorthwyo’r Uned Dysgu Digidol Llywodraeth Cymru i gasglu adborth gan ymarferwyr addysg er mwyn llywio cyfeiriad y rhaglen yn y dyfodol.

**Diweddariad ar gyfer 2019**

Cafodd Grant Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) Dysgu yn y Gymru Ddigidol (Cam 2) – £1.45m o gyllid grant – ei roi fel cymorth ariannol parhaus i’r consortia rhanbarthol ar gyfer Rhaglen Hwb am dair blynedd o 1 Ebrill 2016 i 31 Mawrth 2019.

Ar gyfer ei flwyddyn olaf (2018–19), cafodd Grant DPP Dysgu yn y Gymru Ddigidol ei gynnwys fel rhan o Grant Gwella Ysgolion Consortia Addysg Rhanbarthol. Roedd y pedwar consortiwm rhanbarthol wedi cynnig amrywiaeth o ddewisiadau cymorth a chyfleoedd i ddatblygu o dan y rhaglen yn ystod y cyfnod hwnnw.

Ym mis Ebrill 2019, roedd Cam 3 y grant wedi dechrau drwy neilltuo cyllid o £500k ar gyfer y flwyddyn gyntaf. Disgwylir y bydd y consortia rhanbarthol yn defnyddio’r cyllid i barhau i gefnogi’r Rhaglen Hwb ac i fynd ati i hyrwyddo dinasyddiaeth ddigidol, a defnydd diogel a chyfrifol o dechnoleg ddigidol.

**Statws y cam gweithredu: Ar y gweill.**

## 14. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyfrannu at Bartneriaeth Diogelwch y Rhyngrwyd Cymru (WISP) er mwyn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am raglenni gwaith diogelwch ar-lein a thrafod materion diogelwch ar-lein.

Sefydlwyd Partneriaeth Diogelwch y Rhyngrwyd Cymru (WISP) gan BT Cymru a WISE KIDS ym mis Mai 2007. Mae'n bartneriaeth anffurfiol o sefydliadau aelod cynrychioladol yng Nghymru (neu sydd â chylch gwaith sy'n cynnwys Cymru), sydd â diddordeb mewn hyrwyddo llythrennedd digidol ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru.

Amcan WISP yw hyrwyddo llythrennedd digidol ar gyfer plant a phobl Ifanc yng Nghymru trwy rannu gwybodaeth, syniadau, adnoddau ac ymarfer da ymysg aelodau. Eu hamcan ehangach yw ymgysylltu'n fwy effeithiol â phlant a phobl ifanc er mwyn eu galluogi i:

- ddeall y byd digidol yn well
- defnyddio technolegau ar-lein yn effeithiol
- asesu risgiau ar-lein, a rheoli diogelwch personol a hunaniaethau digidol.

**Diweddariad ar gyfer 2019**

Drwy gydol 2018–19 mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i fynychu Partneriaeth Diogelwch y Rhyngrwyd Cymru (WISP) ar y cyd â swyddogion o feysydd Cynhwysiant Digidol a Dysgu Digidol, gan gyflwyno'r newyddion diweddaraf ar raglenni gwaith.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i barhau i feithrin cysylltiadau â WISP ac i gydweithio â'i haelodau. Bydd y gwaith hwnnw'n parhau yn y dyfodol.

**Statws y cam gweithredu: Parhaus.**

## 15. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i adolygu a monitro effaith Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 a dyletswyddau awdurdodau lleol yn ymwneud â darparu addysg.

Cafodd Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) Gydsyniad Brenhinol ar 29 Ebrill 2015, a'i nod yw sicrhau bod y sector cyhoeddus yn canolbwyntio ar atal y materion hyn, yn amddiffyn dioddefwyr ac yn cefnogi'r rhai sy'n cael eu heffeithio gan faterion fel hyn.

Y diben cyffredinol yw gwella ymateb y sector cyhoeddus i drais ar sail rhyw, cam-drin domestig a thrais rhywiol, gan ganolbwyntio mewn ffordd strategol ar y materion hyn a sicrhau ystyriaeth gyson o ddulliau gweithredu ataliol, amddiffynnol a chefnogol wrth ddarparu gwasanaethau.

Mae amcan 2 o'r Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2016–2021 yn ymwneud â'r maes hwn:

> *Cynyddu ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc o bwysigrwydd perthnasoedd diogel, cyfartal ac iach a'r ffaith fod ymddygiad camdriniol yn anghywir bob amser.*

Er mwyn cefnogi darpariaethau'r Ddeddf yn ymwneud ag addysg ac amcan y strategaeth, mae Llywodraeth Cymru yn datblygu pecyn cynhwysfawr ac ehangach o fesurau, sy'n gysylltiedig ag agenda diogelu mewn ysgolion yr Adran Addysg a Sgiliau a rhoi'r adolygiad o'r cwricwlwm ar waith.

Yn 2015–16, aeth Llywodraeth Cymru ati i greu deunyddiau codi ymwybyddiaeth ar gyfer llywodraethwyr ysgol a chyhoeddi *Canllaw Arfer Da: Dull Addysg Gyfan o Ymdrin â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yng Nghymru*. Hefyd, comisiynodd Llywodraeth Cymru Cymorth i Ferched Cymru mewn partneriaeth â'r elusen Against Violence and Abuse (AVA) i wneud gwaith ymchwil a llunio pecyn o ddeunyddiau arferion gorau yn ymwneud â'r materion hyn, i'w defnyddio mewn lleoliadau addysg ledled Cymru.

**Diweddariad ar gyfer 2019**

Rydym wedi ymgynghori ar ddangosyddion cenedlaethol i fesur effaith Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru). Yn sgil yr angen i leihau beichiau biwrocrataidd a'r adolygiad o'r cwricwlwm, nid yw Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn bwriadu cyflwyno'r ddyletswydd i awdurdodau lleol adrodd am y ddarpariaeth addysgol mewn perthynas â'r Ddeddf.

**Statws y cam gweithredu: Ar ben.**

**16. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried sut i gryfhau darpariaeth diogelwch ar-lein mewn gwasanaethau addysg heblaw yn yr ysgol, gan gynnwys unedau cyfeirio disgyblion.**

Ym mis Rhagfyr 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru *Fframwaith Gweithredu ar gyfer darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol* – penllanw dwy flynedd o ymgysylltu a thrafod rhwng y sector a Grŵp Gorchwyl a Gorffen traws-sector darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS). Amcan cyffredinol y fframwaith yw cynyddu cyfle cyfartal ar gyfer dysgwyr sy'n defnyddio darpariaeth EOTAS, gan eu helpu i wireddu eu potensial.

Mae Grŵp Cyflawni EOTAS, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o ddarpariaeth EOTAS, awdurdodau lleol ac ysgolion prif ffrwd, wedi'i sefydlu i oruchwylio'r broses o roi'r fframwaith ar waith. Wrth weithredu'r 34 cynnig yn y fframwaith, bydd Grŵp Cyflawni EOTAS yn archwilio sut i wella mynediad at wasanaethau bugeiliol fel cyngor ar yrfaoedd, cwnsela a Hwb ar gyfer dysgwyr EOTAS.

**Diweddariad ar gyfer 2019**

Rydym yn parhau i roi'r Fframwaith Gweithredu ar gyfer darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol ar waith. Os yw'n briodol, bydd diogelwch ar-lein mewn gwasanaethau addysg heblaw yn yr ysgol yn cael ei gynnwys.

**Statws y cam gweithredu: Ar y gweill.**

## 17. Bydd portffolios Iechyd ac Addysg Llywodraeth Cymru yn cyd-ariannu cynllun peilot i brofi darpariaeth mewn gymorth iechyd meddwl ar gyfer ysgolion gan y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS).

Mae'r cynllun peilot mewn gymorth iechyd meddwl ar gyfer ysgolion Llywodraeth Cymru yn ceisio helpu a chynorthwyo athrawon i ymateb i blant a phobl ifanc sy'n wynebu anawsterau fel pryder, iselder, ac anhwylderau cymhellol, hunan-niweidio neu ymddygiad. Mewn rhai achosion, gall problemau iechyd meddwl ddeillio o dechnoleg ddigidol, neu waethygu o'r herwydd.

Bydd y gweithgaredd peilot a ariennir yn para dwy flynedd academaidd, gan ddod i ben yn ystod haf 2020. Canolbwyntir yn benodol ar nodi ac ymyrryd yn gynnar. Cynhelir y cynllun peilot mewn tair ardal – Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr yn y Gogledd-ddwyrain (Wrecsam a Sir Ddinbych); Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan yn y De-ddwyrain (Blaenau Gwent, Torfaen a De Powys); a Bwrdd Iechyd Hywel Dda yn y Gorllewin (Ceredigion).

Hefyd, mae'r cyllid yn cynnwys darpariaeth i werthuso'r cynlluniau peilot, a bydd y gwerthusiad yn llywio cyfeiriad polisi yn y dyfodol.

**Diweddariad ar gyfer 2019**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i roi £1.4m o gyllid i ariannu cynllun peilot i brofi darpariaeth mewn cymorth iechyd meddwl i ysgolion ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS). Mae gwasanaethau iechyd meddwl o fewn ysgolion yn cynnig cymorth, cyngor a hyfforddiant iechyd arbenigol i ysgolion. Er nad yw hynny'n hoelio'r sylw'n benodol ar ddiogelwch ar-lein, fe fydd yn sicrhau bod gan staff ysgolion y sgiliau a'r hyder i ymateb i ddysgwyr sy'n dangos arwyddion o ofid emosiynol. Bydd staff ysgolion mewn sefyllfa well i gael sgyrsiau â dysgwyr am eu hiechyd meddwl a byddant yn fwy effeithiol wrth gyfeirio dysgwyr at y cymorth iawn ar yr adeg iawn.

Bydd cynlluniau peilot sydd ar y gweill mewn chwech o ardaloedd awdurdodau lleol a phedwar o ardaloedd byrddau iechyd lleol yn parhau i gael eu gweithredu hyd at haf 2020. Mae contract i werthuso'r cynlluniau ar waith, sy'n cynnwys gwerthusiad interim ym mis Rhagfyr 2019 a gwerthusiad terfynol ym mis Rhagfyr 2020.

**Statws y cam gweithredu: Ar y gweill.**

**18. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gydag Ysgolion Arloesi trwy'r meysydd dysgu a phrofiad perthnasol, gan gynnwys Iechyd a Lles, er mwyn sicrhau bod materion diogelwch ar-lein yn llywio'r gwaith o ddatblygu fframwaith y cwricwlwm newydd.**

Mae'r cwricwlwm newydd ar gyfer Cymru yn cael ei ddatblygu gan athrawon ac ymarferwyr trwy rwydwaith o Ysgolion Arloesi mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, consortia rhanbarthol, Estyn, Cymwysterau Cymru, addysg uwch, busnesau a phartneriaid allweddol eraill.

Mae Cwricwlwm i Gymru 2022 yn seiliedig ar chwech maes dysgu a phrofiad, ac un ohonynt yw Iechyd a Lles. Trwy Faes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles, bydd dysgwyr yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o sut mae'r amgylchedd, gan gynnwys yr amgylchedd ar-lein, eu cyflwr meddwl a'u cyflwr corfforol yn effeithio ar eu hiechyd, eu lles a'u parodrwydd i ddysgu gydol eu hoes.

**Diweddariad ar gyfer 2019**

Mae diogelwch ar-lein wedi'i ystyried gan yr Ysgolion Arloesi sy'n datblygu'r cwricwlwm newydd, ac mae hynny'n cael ei adlewyrchu yn natganiadau yr hyn sy'n bwysig ar gyfer nifer o feysydd dysgu a phrofiad, gan gynnwys Iechyd a Lles a Gwyddoniaeth a Thechnoleg. Cafodd Cwricwlwm drafft i Gymru 2022 ei gyhoeddi i bobl roi adborth arno ar 30 Ebrill 2019. Daeth y cyfnod adborth i ben ar 19 Gorffennaf 2019 a bydd Cwricwlwm diwygiedig i Gymru 2022 ar gael ym mis Ionawr 2020.

Un o bedwar diben y cwricwlwm newydd yw bod dysgwyr yn datblygu i fod yn unigolion iach a hyderus sy'n gwybod sut i ddod o hyd i wybodaeth a chymorth i'w cadw'n ddiogel ac yn iach, ac i ffurfio perthynas gadarnhaol ag eraill sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth a chyd-barch. Mae Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles yn cefnogi dysgwyr i brosesu profiadau ar-lein ac ymateb iddynt, gwneud penderfyniadau diogel wrth gysylltu ag eraill ar-lein ac i wybod os bydd perthynas ag eraill ar-lein yn un niweidiol neu un nad yw'n iach. Mae Cwricwlwm i gymru 2022 yn rhoi mwy o bwyslais ar baratoi pobl ifanc ar gyfer bywyd. Bydd cymhwysedd digidol yn thema drawsgwricwlaidd, ar y cyd â llythrennedd a rhifedd.

Yn ychwanegol at gymhwysedd digidol, mae Cwricwlwm i Gymru 2022 yn cynnwys cyfrifiadura fel llinyn dysgu ym Maes Dysgu a Phrofiad Gwyddoniaeth a Thechnoleg. Er bod hwnnw'n canolbwyntio ar ddatblygu dealltwriaeth o egwyddorion allweddol sy'n sail i gyfrifiadureg, rydym yn disgwyl i fater diogelwch ar-lein gael ei gynnwys fel rhan o hynny.

**Statws y cam gweithredu: Ar y gweill.**

## Cyfathrebu a hyrwyddo

**19. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi digwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid addysg sy'n cynnwys diogelwch ar-lein.**

Cynhelir amrywiaeth o ddigwyddiadau rhanddeiliaid digidol ledled Cymru, gan gynnwys:

- Digwyddiad Dysgu Digidol Cenedlaethol blynyddol – digwyddiad blaenllaw ar gyfer athrawon a'r rhai sy'n gweithio ym maes addysg yng Nghymru, gyda'r nod o godi proffil dysgu digidol er mwyn ceisio nodi a rhannu enghreifftiau o arfer da ac arbenigedd ym maes dysgu digidol
- CwrddHwb – sesiynau rhwydweithio athrawon wyneb yn wyneb i hwyluso'r broses o rannu arferion da fel bod athrawon yn gallu dysgu gan bobl eraill; fe'u darperir ar y cyd â chonsortia rhanbarthol
- 'Online Safety Briefing Sessions' – bydd SWGfL, fel rhan o Ganolfan Rhyngrwyd Mwy Diogel y DU, yn cyflwyno sesiynau briffio diogelwch ar-lein[6] yng Nghymru.

**Diweddariad ar gyfer 2019**

Cynhaliwyd Digwyddiad Dysgu Digidol Cenedlaethol 2018 yng Ngwesty'r Celtic Manor, Casnewydd, ddydd Mercher 20 Mehefin 2018. Thema'r digwyddiad oedd 'Rhannu arferion digidol i gefnogi cwricwlwm sy'n datblygu', ac roedd 229 o gynrychiolwyr yn bresennol. Cafodd y digwyddiad ei gynllunio ar sail 'Marchnad Ddigidol'. Roedd 40 o stondinau dan arweiniad ymarferwyr ac arbenigwyr (a 38 o blant) a oedd yn cynnal sesiynau byr ac ymarferol gyda grwpiau bach o gyfranogwyr. Roedd y stondinau'n dangos enghreifftiau arloesol o'r arferion digidol sy'n cael eu datblygu mewn ysgolion ledled Cymru. Roedd un stondin yn canolbwyntio ar ddiogelwch ar-lein, ac yn cael ei chynnal gan swyddogion Llywodraeth Cymru a SWGfl. Nod y stondin oedd codi ymwybyddiaeth o'r rhaglen ar ddiogelwch ar-lein, y Parth Diogelwch Ar-lein a'r casgliad helaeth o adnoddau diogelwch ar-lein.

O dymor y gwanwyn 2020 ymlaen, cynhelir pedwar Digwyddiad Dysgu Digidol Rhanbarthol – bydd un yn cael ei gynnal gan bob un o'r pedwar consortiwm rhanbarthol. Mae'r digwyddiadau hyn yn disodli'r Digwyddiad Dysgu Digidol Cenedlaethol, ac yn sicrhau ein bod yn cyrraedd cynulleidfa addysg ehangach ledled Cymru. Mae'r digwyddiadau wedi'u hanelu at athrawon a'r rhai sy'n gweithio ym maes addysg yng Nghymru, gyda'r nod o godi proffil dysgu digidol er mwyn ceisio nodi a rhannu enghreifftiau o arferion da ac arbenigedd ym maes dysgu digidol. Yn ogystal, mae cynlluniau ar y gweill i gynnal digwyddiadau tebyg wedi'u hanelu at ddysgwyr, gan gynnwys sesiynau a gyflwynir gan ddysgwyr.

---

[6] www.saferinternet.org.uk/training-events/online-safety-live-free-online-safety-events (Saesneg yn unig)

Bydd y consortia rhanbarthol yn parhau i gynnal CwrddHwb. Fel rhan o'u cylch gwaith, mae CwrddHwb yn cynnwys agweddau ar ddiogelwch ar-lein.

Yn ystod 2018–19 roedd Llywodraeth Cymru wedi cefnogi 11 o 'Online Safety Briefings' a gafodd eu cyflwyno fel rhan o waith maes Canolfan Rhyngrwyd Mwy Diogel y DU sy'n hyrwyddo'r sesiynau ac yn rhoi gwybod am faint o leoedd sydd ar gael ar gyfer y sesiynau yn y Parth Diogelwch Ar-lein ar Hwb.

Yn ystod 2019–20, bydd Canolfan Rhyngrwyd Mwy Diogel y DU yn cyflwyno deg o 'Online Safety Briefings' yng Nghymru. Bydd y sesiynau'n darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am dueddiadau, technolegau, materion ac ymchwil gyfoes yn ymwneud â diogelwch ar-lein, yn ogystal â chyfeirio cynrychiolwyr i adnoddau a chyngor. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu cymorth cyfathrebu i godi ymwybyddiaeth o ddarpariaeth Canolfan Rhyngrwyd Mwy Diogel y DU.

**Statws y cam gweithredu: Parhaus.**

**20. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu Parth Diogelwch Ar-lein ar Hwb, sy'n cynnwys ffynonellau newyddion, digwyddiadau ac adnoddau diogelwch ar-lein ar gyfer plant, pobl ifanc, gweithwyr addysg proffesiynol, llywodraethwyr, rhieni a gofalwyr.**

Mae Hwb, y llwyfan dysgu digidol ar gyfer Cymru, yn darparu amrywiaeth eang o offerynnau ac adnoddau digidol dwyieithog a ariennir yn ganolog ar gyfer rhanddeiliaid addysg er mwyn helpu i weddnewid arferion addysg.

Lansiwyd y Parth Diogelwch Ar-lein ar Hwb ar Ddiwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel ar 6 Chwefror 2017. Mae'r parth yn adran bwrpasol ar Hwb sydd wedi'i chynllunio a'i datblygu i gefnogi arferion diogelwch ar-lein enghreifftiol ym maes addysg ledled Cymru.

Mae'r Parth Diogelwch Ar-lein yn cynnal adnoddau addysgu amrywiol yn ymwneud â phynciau diogelwch ar-lein gwahanol er mwyn helpu i gadw dysgwyr yn ddiogel ar-lein. Mae'n darparu mynediad i ffynonellau canllawiau a chyngor ar gyfer dysgwyr, ymarferwyr addysg, gweithwyr addysg proffesiynol, llywodraethwyr, rhieni a gofalwyr, ysgolion a chymorth arbenigol ychwanegol. Hefyd, mae'r parth yn cynnwys calendr digwyddiadau hyfforddi fel bod ymarferwyr yn gallu cofrestru ar gyfer sesiynau hyfforddiant diogelwch ar-lein.

**Diweddariad ar gyfer 2019**

Mae Hwb, y llwyfan dysgu digidol ar gyfer Cymru, yn darparu amrywiaeth eang o offerynnau ac adnoddau digidol dwyieithog a ariennir yn ganolog ar gyfer rhanddeiliaid addysg er mwyn helpu i weddnewid arferion addysg. Mae Hwb wedi datblygu i fod yn gyfrwng digidol strategol unigol ar gyfer addysg yng Nghymru, sy'n cynnal Cwricwlwm i Gymru 2022, datblygu proffesiynol ar gyfer staff a chymorth ar gyfer seilwaith digidol. Caiff Hwb ei ddefnyddio'n rheolaidd gan dros 96 y cant o ysgolion yng Nghymru.

Mae'r Parth Diogelwch Ar-lein ar Hwb yn parhau i fod yn stop un siop ar gyfer adnoddau dwyieithog am ddiogelwch ar-lein. Ers ei lansio yn 2017, mae'r rhaglen diogelwch ar-lein wedi cyhoeddi dros 105 o adnoddau. Mae hynny wedi cynnwys 66 o adnoddau rhestr chwarae, tri phecyn addysg ar gyfer Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel, yn ogystal â deg o ganllawiau i athrawon a deg o ganllawiau i rieni a gofalwyr.

Edrychwyd ar dudalennau'r Parth Diogelwch Ar-lein dros 50,000 o weithiau yn ystod 2018–19, a hyd yma mae'r nifer o weithiau yr edrychwyd ar ei dudalennau wedi cyrraedd dros 366,000.

Yn ystod 2019–20, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i greu a chynnal yr holl newyddion, adnoddau, canllawiau a gwybodaeth sy’n ymwneud â diogelwch ar-lein ar gyfer rhaglenni addysg yng Nghymru. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnal adolygiad o’r Parth Diogelwch Ar-lein, gan edrych ar ffyrdd i wella profiad y defnyddiwr presennol.

**Statws y cam gweithredu: Parhaus.**

## 21. Bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel yng Nghymru bob blwyddyn er mwyn codi proffil a phwysigrwydd diogelwch ar-lein ledled Cymru.

Mae Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel yn cael ei ddathlu'n fyd-eang ym mis Chwefror bob blwyddyn er mwyn hyrwyddo'r defnydd diogel a chadarnhaol o dechnoleg ddigidol ar gyfer plant a phobl ifanc ac ysbrydoli sgwrs genedlaethol. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi'r diwrnod hwn bob blwyddyn. Cynhelir Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel 2019 ar 5 Chwefror 2019.

Fel rhan o'r digwyddiad hwn, sy'n cael ei gydgysylltu yn y DU gan Ganolfan Rhyngrwyd Mwy Diogel y DU, mae cannoedd o sefydliadau yn uno i godi ymwybyddiaeth o faterion diogelwch ar-lein a chynnal digwyddiadau a gweithgareddau ledled y DU.

**Diweddariad ar gyfer 2019**

Cynhaliwyd Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel 2019 ddydd Mawrth 5 Chwefror 2019. Y thema fyd-eang ar gyfer y diwrnod oedd 'Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel: gwella'r we gyda'n gilydd', a thema'r DU yw: 'Ein rhyngrwyd ni, ein dewis ni: Deall cydsyniad mewn byd digidol'.

Ddydd Iau 8 Tachwedd 2018, roedd Canolfan Rhyngrwyd Mwy Diogel y DU wedi cynnal Digwyddiad Cynllunio Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel ar gyfer Rhanddeiliaid yng Nghanolfan Mileniwm Cymru ym Mae Caerdydd. Roedd y digwyddiad hwnnw, a oedd yn cynnwys amrywiaeth o randdeiliaid, yn cynnig y cyfle iddynt glywed yn uniongyrchol gan Ganolfan Rhyngrwyd Mwy Diogel y DU am yr hyn y byddai ymgyrch Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel 2019 yn ei gynnwys, sut y gallent ei gefnogi, ac i rannu syniadau am sut y gallent gyfrannu ato.

Roedd pecynnau dwyieithog *Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel 2019: pecynnau Addysg*[7] wedi'u cyhoeddi ar Barth Diogelwch Ar-lein Hwb. Roedd y rhain yn cynnwys *Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel 2019: Pecyn addysg atodol*[8] a oedd wedi'i gomisiynu'n arbennig ar gyfer ysgolion, a gwybodaeth i rieni a gofalwyr.

Cafodd ffilm o neges o gefnogaeth[9] gan Kirsty Williams AC, y Gweinidog Addysg, ei chyhoeddi ar gyfer y diwrnod. Cyhoeddwyd datganiad ysgrifenedig ganddi hefyd yn rhoi'r newyddion diweddaraf am y gwaith ar ddiogelwch ar-lein sy'n mynd rhagddo ledled Cymru.

Cynhelir Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel 2020 ddydd Mawrth 11 Chwefror 2020. Thema fyd-eang y diwrnod yw 'Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel: gwella'r rhyngrwyd gyda'n gilydd'.

---

[7] hwb.llyw.cymru/repository/resource/0f257d83-8e15-474f-a540-44b18f7f4439/cy
[8] hwb.llyw.cymru/repository/resource/8d9ccdb1-8ebd-44b9-9923-4eadaa93e1d3/cy
[9] hwb.llyw.cymru/parthau/diogelwch-ar-lein/news/articles/14a96dfb-591f-46aa-87a9-4478da16f503

Mae’r gwaith cynllunio ar gyfer Diwrnod Defnyddio’r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel eisoes wedi dechrau, a bydd diweddariadau’r ymgyrch ar gael ar dudalen benodedig Diwrnod Defnyddio’r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel ar Hwb.

Bydd Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â Chanolfan Rhyngrwyd Mwy Diogel y DU, yn cynnal digwyddiad ar 13 Tachwedd 2019 i gyflwyno’r trefniadau ar gyfer ymgyrch Defnyddio’r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel a helpu ysgolion a sefydliadau i gymryd rhan ynddo. Bydd y digwyddiad yn canolbwyntio ar yr hyn y gall Diwrnod Defnyddio’r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel ei wneud ar gyfer eich sefydliad, eich gweithwyr neu eich ysgol. Caiff rhagor o fanylion yn y Parth Diogelwch Ar-lein ar Hwb.

**Statws y cam gweithredu: Parhaus.**

## 22. Bydd llywodraeth Cymru yn defnyddio llwyfannau cyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu a chodi ymwybyddiaeth o’r amrywiaeth eang o weithgareddau diogelwch ar-lein sy’n digwydd ledled Cymru.

Mae ffrwd twitter @HwbNews Llywodraeth Cymru yn cael ei defnyddio’n eang i hyrwyddo gweithgareddau diogelwch ar-lein. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am ddigwyddiadau diogelwch ar-lein sydd yn yr arfaeth, a manylion adnoddau sydd wedi’u cyhoeddi trwy’r Parth Diogelwch Ar-lein.

Hefyd, mae’r cylchlythyr addysg *Dysg* yn cael ei ddefnyddio’n helaeth i hyrwyddo gweithgareddau diogelwch ar-lein.

**Diweddariad ar gyfer 2019**

Yn ystod 2018–19 roedd Llywodraeth Cymru wedi defnyddio nifer o blatfformau cyfathrebu a’r cyfryngau cymdeithasol i godi ymwybyddiaeth o ddiogelwch ar-lein, gan gynnwys y canlynol.

### Y Parth Diogelwch Ar-lein ar Hwb

Mae dros 145 o erthyglau newyddion wedi’u cyhoeddi ar y Parth Diogelwch Ar-lein ar Hwb i hyrwyddo’r Rhaglen Diogelwch Ar-lein, gan gynnwys yr hyfforddiant a’r adnoddau sydd ar gael.

### *Dysg*

Mae’r cylchlythyr addysg *Dysg* hefyd wedi’i ddefnyddio i hyrwyddo digwyddiadau ac adnoddau ar ddiogelwch ar-lein, gan gynnwys Diwrnod Defnyddio’r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel. Mae’r cylchlythyr yn cyrraedd cynulleidfa o dros 23,000 ar gyfer pob rhifyn.

### Y cyfryngau cymdeithasol

Rydym wedi defnyddio’r cyfrif twitter @HwbNews yn helaeth i godi ymwybyddiaeth o’r Rhaglen Diogelwch Ar-lein. Mae eitemau wedi’u rhannu hefyd ar twitter drwy sianeli addysg Llywodraeth Cymru – @LlC_Addysg ac ar dudalen Facebook Addysg Cymru. Mae sianel y Gweinidog Addysg, sef @wgmin_education, wedi hyrwyddo gweithgareddau mewn perthynas â diogelwch ar-lein o bryd i’w gilydd hefyd.

Mae’r sianel ar gyfer ymgysylltu â rhieni, sef Mae addysg yn dechrau yn y cartref, @dechraucartref, a’r dudalen Facebook Mae addysg yn dechrau yn y cartref, wedi rhoi sylw i faterion diogelwch ar-lein hefyd.

I ennyn rhagor o ddiddordeb yn ystod 2019–20, bydd gwefan llyw.cymru yn rhoi sylw i ddatblygiadau ac adnoddau sy’n ymwneud â’r Rhaglen Diogelwch Ar-lein.

Yn ystod 2019–20, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gyfathrebu a chodi ymwybyddiaeth o’r amrywiaeth helaeth o adnoddau a digwyddiadau sy’n ymwneud â diogelwch ar-lein drwy sianeli cyfathrebu, cylchlythyrau a chyfryngau cymdeithasol Llywodraeth Cymru.

**Statws y cam gweithredu: Parhaus.**

## 23. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda SWGfL i ddarparu cylchlythyr diogelwch ar-lein dwyieithog bob mis.

Bydd SWGfL yn parhau i ddarparu cylchlythyr diogelwch ar-lein dwyieithog bob mis, wedi'i gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ar Hwb.

**Diweddariad ar gyfer 2019**

Yn ystod 2018–19 roedd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi cylchlythyr dwyieithog bob mis ar ddiogelwch ar-lein yn y Parth Diogelwch Ar-lein ar Hwb. Mae'r cylchlythyr yn cynnig crynodeb o'r newyddion, adnoddau a digwyddiadau diweddaraf ar ddiogelwch ar-lein. Ac yn ychwanegol at hynny, ceir diweddariadau ar Ddiwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel, a materion eraill sydd o ddiddordeb sy'n ymwneud â'r Rhaglen Diogelwch Ar-lein.

Caiff y cylchlythyr ei ddarparu gan SWGfl, sy'n cael ei gontractio ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru i gynnal y prosiect ar godi ymwybyddiaeth o ddiogelwch ar-lein yng Nghymru.

Yn ystod 2019–20 bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gydweithio â SWGfL i ddarparu cylchlythyr dwyieithog bob mis ar ddiogelwch ar-lein, ac i'w gyhoeddi ar y Parth Diogelwch Ar-lein ar Hwb. I gofrestru i dderbyn y cylchlythyr, ewch i hwb.llyw.cymru/parthau/diogelwch-ar-lein/cylchlythyr.

**Statws y cam gweithredu: Parhaus.**

## Canllawiau a pholisi

**24. Bydd Llywodraeth Cymru yn diwygio ac yn diweddaru'r canllaw diogelwch statudol *Cadw dysgwyr yn ddiogel*, a fydd yn cynnwys diweddariad ar ddiogelwch ar-lein.**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau statudol – *Cadw dysgwyr yn ddiogel* – er mwyn helpu gwasanaethau addysg i gyflawni eu cyfrifoldebau statudol i ddarparu amgylchedd dysgu diogel, a nodi ac ymateb i bryderon lles gydag asiantaethau eraill, lle bo angen.

Bydd y canllaw hwn yn cael ei ddiweddaru er mwyn ystyried datblygiadau ym meysydd deddfwriaeth a pholisi, gan gynnwys diogelwch ar-lein, bwlio ar-lein a secstio, fel sy'n briodol.

**Diweddariad ar gyfer 2019**

Gweithiodd swyddogion Llywodraeth Cymru yn agos â rhanddeiliaid allweddol yn ystod 2018–19 i ddiwygio a diweddaru'r canllawiau statudol *Cadw dysgwyr yn ddiogel*.

Cyhoeddwyd y fersiwn ddrafft o'r canllawiau *Cadw dysgwyr yn ddiogel* ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus llawn yn ystod haf 2019. Bydd arweinwyr polisi'n diweddaru'r canllawiau yn unol â'r ymatebion a geir i'r ymgynghoriad cyhoeddus, a bydd fersiwn derfynol yn cael ei chyhoeddi yng ngwanwyn 2020.

Mae'r adran ar ddiogelwch ar-lein wedi'i hadolygu a'i diweddaru fel gweddill y canllawiau.

**Statws y cam gweithredu: Ar y gweill.**

**25. Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod materion meithrin perthynas amhriodol ar-lein a chamfanteisio'n rhywiol ar blant yn cael eu hystyried wrth ddiweddaru'r canllaw statudol *Amddiffyn Plant a Phobl Ifanc rhag Camfanteisio Rhywiol*.**

Nod dogfen ganllawiau *Amddiffyn Plant a Phobl Ifanc rhag Camfanteisio Rhywiol* (2010) yw helpu athrawon, gweithwyr iechyd proffesiynol, gweithwyr cymdeithasol, yr heddlu ac ymarferwyr allweddol eraill yng Nghymru i fynd i'r afael â chamfanteisio rhywiol. Hefyd, mae'r canllaw yn helpu i nodi plant sydd mewn perygl, eu galluogi i amddiffyn y plant hyn sy'n agored i niwed, a gweithredu yn erbyn y rhai sy'n cyflawni troseddau.

**Diweddariad ar gyfer 2019**

Lansiwyd ymgynghoriad ar 15 Gorffennaf 2019 am 12 wythnos ar ganllawiau statudol i ddiogelu plant rhag cam-fanteisio rhywiol. Mae'r canllawiau hyn yn cynnwys cyngor ar feithrin perthynas amhriodol ar-lein, a chamdriniaeth a cham-fanteisio ar-lein.

**Statws y cam gweithredu: Ar y gweill.**

**26. Bydd grŵp gorchwyl a gorffen amlasiantaeth yn datblygu canllawiau ymarfer Cymru gyfan ar ddiogelu plant sydd mewn perygl o gael eu cam-drin ar-lein. Bydd Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro yn ymgynghori ar y canllawiau hyn a'u cyhoeddi ar ran Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a'r Byrddau Diogelu yng Nghymru. Bwriedir cyhoeddi'r Gweithdrefnau Amddiffyn Cenedlaethol a'r canllawiau ymarfer cysylltiedig tua dechrau 2019.**

Mae grŵp gorchwyl a gorffen amlasiantaeth wedi'i sefydlu er mwyn datblygu canllawiau diogelu statudol diwygiedig ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant. Cyhoeddir y canllawiau fel rhan o ymgynghoriad ffurfiol yn ystod hydref 2018, a byddant yn cynnwys gwybodaeth am feithrin perthynas amhriodol ar-lein a chamfanteisio'n rhywiol ar blant. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid fel bod Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro yn gallu adolygu a datblygu Gweithdrefnau Amddiffyn Cenedlaethol. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda grwpiau gorchwyl a gorffen i ddatblygu canllawiau ymarfer i'w defnyddio gyda Gweithdrefnau Amddiffyn Cenedlaethol. Bydd hyn yn cynnwys diweddaru Protocol Cymru Gyfan ar Amddiffyn Plant yn erbyn Camdriniaeth trwy ddefnyddio Technoleg Gwybodaeth.

**Diweddariad ar gyfer 2019**

Mae canllaw ymarfer Cymru gyfan ar ddiogelu plant rhag camdriniaeth ar-lein wedi'i ddatblygu gyda grŵp amlasiantaeth a gadeiriwyd gan Colin Turner, o CEOP gynt. Caiff y canllaw hwn ei gyhoeddi ym mis Tachwedd 2019 gyda Gweithdrefnau Diogelu Cymru ar ran y Byrddau Diogelu Plant.

**Statws y cam gweithredu: Ar y gweill.**

## 27. Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal y safonau hidlo'r we a argymhellir ar gyfer ysgolion yng Nghymru.

Mae safonau hidlo'r we yn set gyffredin o safonau y cytunir arnynt ar gyfer mynediad i'r rhyngrwyd sy'n galluogi ysgolion i wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth am fynediad wedi'i hidlo i'r rhyngrwyd, wedi'i ddarparu gan yr awdurdod lleol neu ddarparydd arall. Mae'r safonau yn cynorthwyo ysgolion i fod yn addas ar gyfer dysgu ac addysgu yn yr unfed ganrif ar hugain wrth barhau i ddiogelu plant a phobl ifanc.

Hefyd, mae'r safonau yn cynnwys yr offer sydd ei angen i allu defnyddio adnoddau Hwb, sy'n amlinellu'r gofynion digidol er mwyn sicrhau bod ysgolion yn gallu manteisio'n llawn ar y llwyfan dysgu digidol.

**Diweddariad ar gyfer 2019**

Cafodd y ddogfen *Safonau a argymhellir ar gyfer hidlo'r we yn ysgolion Cymru* ei diweddaru a'i chyhoeddi ym mis Chwefror 2018 ac mae ar gael i ysgolion yng Nghymru. Prif nod y safonau a amlinellir yn y ddogfen hon yw galluogi mynediad i wefannau sy'n cefnogi addysgu a dysgu effeithiol mewn ysgolion.

Bydd y safonau'n rhoi cyfle i ddysgwyr ddysgu mewn amgylchedd diogel, cyfrifol a chefnogol ac yn atal mynediad at gynnwys amhriodol. Dylai rhaglen addysg effeithiol ar ddiogelwch ar-lein ategu'r canllawiau hyn er mwyn addysgu plant a phobl ifanc ynghylch pwysigrwydd ymddygiadau cyfrifol ac ystyriol ar-lein.

**Statws y cam gweithredu: Parhaus.**

**28. Bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu ac yn diwygio'r canllaw gwrthfwlio anstatudol *Parchu eraill*, sy'n cynnwys cyngor ar fynd i'r afael â bwlio ar-lein mewn ysgolion.**

Yn 2003, fe aeth Llywodraeth Cymru ati i gyhoeddi canllawiau anstatudol i helpu i fynd i'r afael â bwlio mewn ysgolion yng Nghymru – *Parchu Eraill: Canllawiau Gwrthfwlio*. Yn 2011, cafodd y canllawiau eu diweddaru a'u hymestyn i fynd i'r afael â phum maes bwlio allweddol. Un o'r meysydd allweddol hyn yw bwlio ar-lein. Ar hyn o bryd, rydym wrthi'n adolygu *Parchu eraill* gyda rhanddeiliaid allweddol er mwyn sicrhau bod y canllawiau'n parhau i ddarparu cymorth effeithiol ar gyfer awdurdodau lleol, ysgolion, rhieni, gofalwyr a dysgwyr. Cyhoeddir y canllawiau diwygiedig ar gyfer ymgynghoriad yn 2018.

**Diweddariad ar gyfer 2019**

Cafodd y canllawiau a'r pecyn cymorth gwrthfwlio diwygiedig drafft eu cyhoeddi at ddibenion ymgynghori rhwng Tachwedd 2018 a Chwefror 2019. Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion[10] ym mis Mai 2019.

Mae'r canllawiau diwygiedig yn nodi pwysigrwydd dull gweithredu ysgol gyfan a mynd ati mewn ffordd ragweithiol i herio ac atal bwlio. Rydym eisiau sicrhau bod cysylltiad agos rhwng yr elfennau o'r canllawiau sy'n gysylltiedig â bwlio ar-lein a'n nodau ehangach ar gyfer diogelwch ar-lein, ac rydym wedi gweithio'n agos â SWGfL i gyflawni hyn. Bydd y canllawiau newydd ar gael yn y flwyddyn ysgol newydd.

**Statws y cam gweithredu: Ar y gweill.**

[10] llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2019-05/crynodeb-or-ymatebion-canllawiau-a-phecyn-cymorth-gwrth-fwlio-drafft.pdf

**29. Bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu'r adnoddau gwrthfwlio sydd ar gael ar gyfer ysgolion ar hyn o bryd ac yn asesu unrhyw anghenion er mwyn helpu ymarferwyr addysg i fynd i'r afael â bwlio mewn lleoliadau addysg.**

Yn ogystal â diwygio canllawiau *Parchu eraill*, rydym yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol er mwyn ystyried pa strategaethau ac adnoddau sydd eu hangen i helpu i rannu'r neges wrthfwlio mewn lleoliadau addysg. Mae adolygiad o'r deunyddiau sydd ar gael ar hyn o bryd wedi dechrau, ac ar sail canfyddiadau'r adolygiad byddwn yn ystyried datblygu rhagor o adnoddau er mwyn helpu ymarferwyr addysg i fynd i'r afael â bwlio.

**Diweddariad ar gyfer 2019**

Bydd y canllawiau gwrthfwlio newydd yn cael eu hategu gan becyn cymorth ar-lein ar Hwb. Bydd y pecyn cymorth hwn yn cynnig adnoddau a chymorth i ymarferwyr, dysgwyr a rhieni/gofalwyr, a bydd ar gael yn y flwyddyn ysgol newydd. Bydd yn adnodd byw a fydd yn tyfu dros amser wrth i adnoddau newydd gael eu hychwanegu.

**Statws y cam gweithredu: Ar y gweill.**

## 30. Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal canllawiau *Gwrthsafiad a pharch* ar gyfer ysgolion.

Mae'r canllawiau *Gwrthsafiad a pharch – Datblygu cydlyniant cymunedol* (2016) ar gyfer ysgolion yn ceisio helpu i ddatblygu cydlyniant cymunedol ac atal eithafiaeth dreisgar ym mhob ysgol uwchradd, uned cyfeirio disgyblion, ysgol arbennig a lleoliad addysgol arall.

**Diweddariad ar gyfer 2019**

Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal *Gwrthsafiad a pharch – Datblygu cydlyniant cymunedol* a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2016 ar gyfer awdurdodau lleol, penaethiaid a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir, penaethiaid a chyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig, athrawon sy'n gyfrifol am unedau cyfeirio disgyblion, darparwyr gofal plant, awdurdodau esgobaethol yr eglwys, sefydliadau hyfforddi athrawon, Cadeiryddion Byrddau Diogelu Plant Lleol, Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, a sefydliadau sy'n arwain ar ddiogelu plant a chydlyniant cymunedol.

Cafodd *Gwrthsafiad a pharch – Datblygu cydlyniant cymunedol* ei diweddaru diwethaf ym mis Ionawr 2019. Mae'r Tîm Cydnerthu yn Llywodraeth Cymru yn parhau i rannu gwybodaeth am arferion da er mwyn helpu ysgolion i ddatblygu a hybu dulliau strategol o hyrwyddo a chynnal cydlyniant cymunedol ac atal eithafiaeth dreisgar drwy'r Grŵp Atal Cymru gyfan, sy'n rhan o Fwrdd CONTEST ac Eithafiaeth Cymru. (Ceir rhagor o wybodaeth o dan Gam gweithredu 46.)

**Statws y cam gweithredu: Parhaus.**

## Ymchwil

**31. Bydd Llywodraeth Cymru yn archwilio defnydd o amsser o flaen sgrin gan blant yng Nghymru ar hyn o bryd er mwyn llywio datblygiad polisi yn y maes hwn.**

O beiriannau chwarae cyfryngau digidol mewn ceir i ffonau clyfar a llechi, mae plant a phobl ifanc yn cael mwy o gyfle nag erioed i ddefnyddio cyfryngau electronig. Mae technoleg yn newid yn gyson, ond mae rôl rhieni a gofalwyr wrth bennu cyfyngiadau diogel, gofalgar yn aros yn ddigyfnewid dros amser. Er bod nifer o arolygon yn adrodd ar amser plant o flaen sgrin, a'u defnydd o ddyfeisiau electronig a'r rhyngrwyd, nid ydynt yn cynnwys plant saith oed neu iau. Ychydig iawn o ddata sydd ar gael ar gyfer Cymru yn unig neu sy'n ymchwilio i ba raddau y mae rhieni a gofalwyr yn ymgysylltu â'u plant tra eu bod o flaen sgrin.

Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn astudiaeth o sampl gynrychioliadol o dros 10,000 o bobl ledled Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r canlyniadau i helpu i sicrhau bod Cymru yn lle gwell i fyw. Mae'r arolwg yn cynnwys pynciau amrywiol yn canolbwyntio ar les a safbwyntiau pobl ar wasanaethau cyhoeddus. Fel rhan o Arolwg Cenedlaethol Cymru 2017–18, gofynnodd Llywodraeth Cymru gwestiynau am amser o flaen sgrin i rieni a gofalwyr sydd â phlant o dan saith oed. Bydd canlyniadau'r arolwg hwn ar gyfer rhieni a gofalwyr sydd â phlant yn y grŵp oedran 3–7 ar gael yn ystod haf 2018. Hefyd, bydd y cwestiynau hyn yn cael eu cynnwys yn Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018–19 ar gyfer rhieni a gofalwyr sydd â phlant rhwng un a phump oed, a bydd y canlyniadau ar gael yn ystod haf 2019.

Archwilio defnydd yng Nghymru ar hyn o bryd yw'r cam cyntaf tuag at lunio ein polisi yn y maes hwn, a all gynnwys datblygu cyngor a chanllawiau ar gyfer y gweithlu cefnogi teuluoedd a rhieni/gofalwyr yn uniongyrchol.

**Diweddariad ar gyfer 2019**

Cyhoeddodd ymgyrch Llywodraeth Cymru 'Magu Plant. Rhowch amser iddo.' y daflen wybodaeth 'Creu cydbwysedd rhwng 'Amser Teulu' ac 'Amser Sgrin'', sy'n rhoi cyngor ar sut i sicrhau bod plant (hyd at bump oed) yn cael digon o amser gyda theulu ac i ryngweithio yn ogystal â defnyddio technoleg. Dengys arolwg blaenorol o rieni/gofalwyr sydd â phlant o dan bump oed fod defnydd eu plant o dechnoleg yn un o'u pryderon. Mae arbenigwyr yn argymell cyfyngu ar amser sgrin plant ifanc. Hynny oherwydd yr effaith y gall ei chael ar eu hiechyd corfforol, yn enwedig eu golwg a'u hosgo, a hefyd eu hiaith a'u sgiliau cymdeithasol. Maent yn argymell y canlynol:

- ni ddylai plant bach 18 mis ac iau ddefnyddio unrhyw ddyfeisiau digidol
- dylid cyfyngu amser sgrin plant dwy i bump oed i awr y dydd
- dylai plant o bob oed (ac oedolion) osgoi defnyddio dyfeisiau digidol cyn mynd i'r gwely gan fod y golau sy'n cael ei ollwng ganddynt yn gallu ei gwneud yn anodd mynd i gysgu.

Byddwn yn ehangu ‘Magu Plant. Rhowch amser iddo.’ i gynnwys plant a phobl ifanc hyd at 18 oed erbyn mis Rhagfyr 2020. Byddwn yn parhau i gadw golwg ar yr ymchwil gyfredol ar amser sgrin priodol i blant, a byddwn hefyd yn cydweithio’n agos â’r gweithwyr proffesiynol yn y maes wrth i ni ehangu’r ymgyrch.

**Statws y cam gweithredu: Ar y gweill.**

## Adnoddau

**32. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda SWGfL i hyrwyddo a darparu mynediad i 360 degree safe Cymru, adnodd hunanasesu diogelwch ar-lein dwyieithog sydd ar gael i bob ysgol a gynhelir yng Nghymru trwy gofrestru untro gyda Hwb. Bydd cynnwys yr adnodd, yn ogystal â'r templedi polisi cysylltiedig, yn cael eu diweddaru unwaith bob dwy flynedd.**

Mae 360 degree safe Cymru yn adnodd hunanasesu diogelwch ar-lein sydd wedi'i gynllunio i sicrhau bod pob ysgol a gynhelir, awdurdod lleol a lleoliad addysg arall yng Nghymru yn gallu asesu ac adolygu eu polisi ac ymarfer yn ymwneud â diogelwch ar-lein. Mae'r adnodd yn tywys ysgolion trwy 28 agwedd ar ddiogelwch ar-lein, gan eu helpu i gydweithio, cofnodi a datblygu eu darpariaeth diogelwch ar-lein.

Mae adnodd hunanasesu 360 degree safe Cymru yn darparu:

- gwybodaeth sy'n gallu dylanwadu ar lunio neu adolygu polisïau diogelwch ar-lein a datblygu arferion da
- proses ar gyfer nodi cryfderau a meysydd i'w gwella
- cyfleoedd ar gyfer ymrwymiad a chyfranogiad yr ysgol gyfan
- continwwm fel bod ysgolion yn gallu trafod sut y gallant newid o ddarpariaeth sylfaenol ar gyfer diogelwch ar-lein i ymarfer sy'n amlygu dyhead ac arloesedd.

Diweddarwyd cynnwys yr adnodd a'r templedi polisi cysylltiedig ym mis Ionawr 2017.

**Diweddariad ar gyfer 2019**

Ym mis Tachwedd 2018, cafodd yr adnodd 360 degree safe Cymru ei ddiweddaru, gyda chynllun newydd a nodweddion ychwanegol ar gyfer defnyddwyr. Mae tudalen hafan yr adnodd bellach yn cynnwys graff sy'n dangos cynnydd yr ysgol ac yn meincnodi ei pherfformiad yn erbyn safonau cenedlaethol a pherfformiad ysgolion eraill. Mae adroddiadau pellach yn galluogi'r ysgol i edrych yn ôl ar gynnydd yr ysgol dros amser.

Yn ogystal, cafodd y polisïau enghreifftiol a chynnwys yr adnodd eu diweddaru a chafodd canllawiau newydd eu cynnwys ar reoli data a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).

Caiff yr adnodd ei ddefnyddio gan 1,426 o ysgolion ar hyn o bryd ac mae'r mwyafrif wedi cwblhau pob un o'i elfennau. Anogir ysgolion i ailedrych ar ei hadolygiad, ac mae bron i 60 y cant o ysgolion cofrestredig wedi defnyddio'r adnodd yn y deuddeg mis diwethaf.

**Statws y cam gweithredu: Parhaus.**

## 33. Bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu adnoddau diogelwch ar-lein dwyieithog ar gfyer plant ysgolion cynradd ac uwchradd yn ymwneud ag amrywiaeth o faterion diogelwch ar-lein penodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd darparu gwybodaeth ddibynadwy am yr amrywiaeth eang o faterion diogelwch ar-lein er mwyn darparu cymorth ac arweiniad ar gyfer plant a phobl ifanc. Hefyd, mae'n cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod yr adnoddau hyn yn ddiddorol, yn addas i'r oedran ac yn gweddu i'r grŵp oedran priodol.

Mae arbenigwyr amrywiol ledled y sector yn creu adnoddau diogelwch ar-lein o ansawdd da, ond mae'r rhan fwyaf ar gael trwy gyfrwng y Saesneg yn unig. Er mwyn helpu i fynd i'r afael â hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi contractio darparydd arbenigol, SWGfL, tan 2019 i ddatblygu amrywiaeth o adnoddau diogelwch ar-lein dwyieithog o ansawdd uchel ar gyfer dysgwyr ysgolion cynradd ac uwchradd.

Bydd Llywodraeth Cymru yn archwilio'r adnoddau diogelwch ar-lein sydd ar gael a sut y gellir eu teilwra ar gyfer rhieni a gofalwyr sy'n darparu addysg yn y cartref. Mae Parth Diogelwch Ar-lein Hwb yn darparu ystod eang o adnoddau diogelwch ar-lein i randdeiliaid addysg. Mae cynnwys y parth yn cael ei adolygu'n rheolaidd, ac mae unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth yn cael eu nodi a'u blaenoriaethu i'w llenwi yn y dyfodol.

Mae nifer y plant sy'n derbyn addysg yn y cartref yn parhau i gynyddu, a bydd llawer o rieni a gofalwyr yn dibynnu ar y rhyngrwyd ac adnoddau ac offerynnau ar-lein i'w helpu i addysgu eu plant yn y cartref. Rydym eisiau sicrhau ein bod yn codi ymwybyddiaeth ymhlith rhieni a gofalwyr o'r peryglon posibl a sut i leihau'r peryglon hyn.

**Diweddariad ar gyfer 2019**

Yn ystod 2018–19, gwnaeth Llywodraeth Cymru barhau i adeiladu ar y gyfres o adnoddau dwyieithog ar bynciau amrywiol yn ymwneud â diogelwch ar-lein. Roedd hyn yn cynnwys creu a chyhoeddi rhestrau chwarae ar y pynciau canlynol.

- Effaith insta: Delwedd o'r corff a hunan-barch mewn oes ddigidol. hwb.llyw.cymru/news/articles/2f30893d-8c2a-4c8b-9217-5b3d13225aeb
- Iechyd meddwl a'r rhyngrwyd. hwb.llyw.cymru/parthau/diogelwch-ar-lein/news/articles/c34a2a0c-9e23-4fc1-8784-3ea8ee14d062
- Ffrydio byw – Mynd yn fyw ar-lein. hwb.llyw.cymru/parthau/diogelwch-ar-lein/news/articles/962906ca-7290-402d-b397-7f8e96e9be51
- Preifatrwydd a data. hwb.llyw.cymru/parthau/diogelwch-ar-lein/news/articles/8e9b7f6f-cdd9-4863-8a37-5fac5b4017ad

- Ochr dywyllach y rhyngrwyd.
  hwb.llyw.cymru/parthau/diogelwch-ar-lein/news/articles/716e13f9-8cb8-4ac9-be8b-cbaa9ae9ca58
- Enw da neu ddrwg ar-lein.
  hwb.llyw.cymru/parthau/diogelwch-ar-lein/news/articles/90c3c5d3-077f-4e65-98be-01970d65ab53
- Deunydd amhriodol ar-lein (cynradd yn unig).
  hwb.llyw.cymru/parthau/diogelwch-ar-lein/news/articles/2e4b0359-05c5-4e53-bc58-64707dd41b5f
- Pornograffi a phobl ifanc (uwchradd a rhieni/gofalwyr yn unig).
  hwb.llyw.cymru/parthau/diogelwch-ar-lein/news/articles/2e4b0359-05c5-4e53-bc58-64707dd41b5f
- Mynd i’r afael â phornograffi (ymarferwyr addysg a llywodraethwyr yn unig).
  hwb.llyw.cymru/parthau/diogelwch-ar-lein/news/articles/2e4b0359-05c5-4e53-bc58-64707dd41b5f

Ar gyfer pob rhestr chwarae, roedd fersiwn addas ar gyfer dysgwyr cynradd a fersiwn ar wahân ar gyfer dysgwyr uwchradd.

Yn 2019–20, bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu a chyhoeddi cyfres newydd o adnoddau ar y materion canlynol:

- amser sgrin, technoleg ac iechyd meddwl
- caniatâd mewn byd ar-lein
- gwybodaeth anghywir
- cynnwys anghyfreithiol a sarhaus
- iaith sy’n ennyn casineb ar-lein.

Caiff dwy restr chwarae eu datblygu ar gyfer pob pwnc – un ar gyfer dysgwyr cynradd ac un ar gyfer dysgwyr uwchradd.

**Statws y cam gweithredu: Parhaus.**

## 34. Bydd Llywodraeth Cymru yn archwilio'r adnoddau diogelwch ar-lein sydd ar gael a sut y gellir eu teilwra ar gyfer rhieni a gofalwyr sy'n addysgu plant yn y cartref.

Mae Parth Diogelwch Ar-lein Hwb yn darparu amrywiaeth eang o adnoddau diogelwch ar-lein ar gyfer rhanddeiliaid addysg. Mae cynnwys y parth yn cael ei adolygu'n rheolaidd, ac mae bylchau mewn darpariaeth yn cael eu nodi a'u blaenoriaethu ar gyfer datblygiad yn y dyfodol.

Mae nifer y plant sy'n derbyn addysg yn y cartref yn parhau i gynyddu, a bydd llawer o rieni a gofalwyr yn dibynnu ar y rhyngrwyd ac adnoddau ac offerynnau ar-lein i helpu i addysgu eu plant yn y cartref. Rydym eisiau sicrhau ein bod yn codi ymwybyddiaeth rhieni a gofalwyr o'r peryglon posibl, a sut i leihau'r peryglon hyn.

**Diweddariad ar gyfer 2019**

Bydd Llywodraeth Cymru yn creu tudalen ar Hwb ar gyfer teuluoedd sy'n addysgu yn y cartref. Bydd y dudalen hon yn cynnwys gwybodaeth ar sut i gael mynediad at arholiadau a gwasanaethau cyffredinol a hefyd dolenni i adnoddau dysgu fel adnoddau'n ymwneud â'r Gymraeg, Saesneg, mathemateg, gwyddoniaeth a diogelwch ar-lein.

**Statws y cam gweithredu: Ar y gweill.**

**35. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddatblygu amrywiaeth o ddeunyddiau diogelwch ar-lein dwyieithog ar gyfer ymarferwyr addysg, gan gynnwys adnoddau ystafell ddosbarth a chanllawiau i athrawon.**

Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod ymarferwyr yn gallu defnyddio amrywiaeth o adnoddau dwyieithog o ansawdd uchel er mwyn helpu i ddarparu addysg diogelwch ar-lein mewn ysgolion.

Yn ystod 2017–18, cyflwynodd Llywodraeth Cymru gyfres newydd o'r enw 'Canllaw i athrawon ar … '. Mae pob canllaw yn y gyfres yn canolbwyntio ar bwnc penodol ym maes diogelwch ar-lein ac yn cynnwys cyngor defnyddiol ar gyfer ymarferwyr addysg. Hefyd, mae'r canllawiau yn cynnwys cyfeiriadau at ffynonellau eraill ac yn darparu awgrymiadau a syniadau ymarferol amrywiol.

Ar ôl derbyn adborth cadarnhaol ar y gyfres, bydd Llywodraeth Cymru yn ariannu cyfres arall o'r canllawiau hyn yn ystod 2018–19, gan ganolbwyntio ar bynciau perthnasol sydd wedi'u nodi gan randdeiliaid fel rhai cyfoes ac angenrheidiol.

**Diweddariad ar gyfer 2019**

Yn ystod 2018–19, datblygodd Llywodraeth Cymru adnoddau newydd i helpu ymarferwyr addysg i ddarparu addysg diogelwch ar-lein yn y dosbarth.

Roedd hyn yn cynnwys adeiladu ar y gyfres bresennol o adnoddau dwyieithog ar ystod o faterion diogelwch ar-lein, gan gynnwys cyhoeddi'r rhestrau chwarae canlynol ar Hwb.

- Effaith insta: Delwedd o'r corff a hunan-barch mewn oes ddigidol. hwb.llyw.cymru/news/articles/2f30893d-8c2a-4c8b-9217-5b3d13225aeb
- Iechyd meddwl a'r rhyngrwyd. hwb.llyw.cymru/parthau/diogelwch-ar-lein/news/articles/c34a2a0c-9e23-4fc1-8784-3ea8ee14d062
- Ffrydio byw – Mynd yn fyw ar-lein. hwb.llyw.cymru/parthau/diogelwch-ar-lein/news/articles/962906ca-7290-402d-b397-7f8e96e9be51
- Preifatrwydd a data. hwb.llyw.cymru/parthau/diogelwch-ar-lein/news/articles/8e9b7f6f-cdd9-4863-8a37-5fac5b4017ad
- Ochr dywyllach y rhyngrwyd. hwb.llyw.cymru/parthau/diogelwch-ar-lein/news/articles/716e13f9-8cb8-4ac9-be8b-cbaa9ae9ca58
- Enw da neu ddrwg ar-lein. hwb.llyw.cymru/parthau/diogelwch-ar-lein/news/articles/90c3c5d3-077f-4e65-98be-01970d65ab53
- Mynd i'r afael â phornograffi (ymarferwyr addysg a llywodraethwyr yn unig). hwb.llyw.cymru/parthau/diogelwch-ar-lein/news/articles/2e4b0359-05c5-4e53-bc58-64707dd41b5f

Yn 2019–20, bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu a chyhoeddi cyfres newydd o adnoddau ar y materion canlynol:

- amser sgrin, technoleg ac iechyd meddwl
- caniatâd mewn byd ar-lein
- gwybodaeth anghywir
- cynnwys anghyfreithiol a sarhaus
- iaith sy'n ennyn casineb ar-lein.

Mae rhestrau chwarae yn ffordd o gasglu ynghyd deunydd o wahanol ffynonellau ar y we, a'ch deunydd eich hunain a chwestiynau cwis, i greu un adnodd y gellir ei rannu ag eraill. Gellir hefyd troi'r rhain yn aseiniad, lle cesglir sgoriau cwis unrhyw ddefnyddiwr sy'n cwblhau'r aseiniad a'u dangos i'r athro mewn llyfr marcio.

Gall defnyddio rhestrau chwarae'r Parth Diogelwch Ar-lein fod yn ffordd ddibynadwy, ddiogel a hygyrch i ymarferwyr addysg a'u dysgwyr drefnu a rhannu adnoddau ar Hwb.

I helpu ymarferwyr addysg ymhellach, rydym hefyd wedi cyhoeddi cyfres arall o'r canllawiau 'Canllaw i athrawon ar ... '. Nod y cyhoeddiadau hyn yw darparu trosolwg ar fater penodol yn ymwneud â diogelwch ar-lein.

Yn ystod 2018–19, cafodd y rhifynnau canlynol eu cyhoeddi.

- Canllaw i athrawon ar y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol a beth mae'n ei olygu i'ch ysgol.
  hwb.llyw.cymru/repository/resource/5ec71c23-98bf-4444-95b8-a2baee6cbcf2/cy
- Canllaw i athrawon ar ffrydio byw – y risgiau a'r cyfleoedd.
  hwb.llyw.cymru/repository/resource/e08cdcf6-7cf6-4e84-b689-ecfe51ebe910/cy
- Canllaw i athrawon ar reoli eich enw da proffesiynol ar-lein.
  hwb.llyw.cymru/repository/resource/a6282681-6ceb-42de-a513-c0adbe18d2d9/cy
- Canllaw i athrawon ar ddefnyddio mentora cymheiriaid mewn diogelwch ar-lein.
  hwb.llyw.cymru/repository/resource/1fa9b858-571f-4cf9-bf2e-61ef7a24261a/cy
- Canllaw i athrawon ar dechnolegau, apiau a llwyfannau newydd ac sy'n datblygu.
  hwb.llyw.cymru/repository/resource/e3a2e832-1803-4bd1-b4b6-79eb800fe703/cy

Yn ystod 2019–20, bydd trydedd gyfres o'r canllawiau 'Canllaw i athrawon ar ... ' yn cael ei chyhoeddi gan ddefnyddio'r teitlau canlynol.

- Canllaw i athrawon ar ffynonellau cymorth ar gyfer problemau diogelwch ar-lein.
- Canllaw i athrawon ar ddefnyddio rhestrau chwarae diogelwch ar-lein yn y dosbarth.
- Canllaw i athrawon ar effaith y rhyngwyd ar iechyd meddwl.
- Canllaw i athrawon ar ddeall rôl y rhyngrwyd mewn radicaliaeth ac eithafiaeth.
- Canllaw i athrawon ar gydnabod a mynd i'r afael â bwlio ar-lein.

**Statws y cam gweithredu: Parhaus.**

## 36. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddatblygu deunyddiau newydd fel bod ymarferwyr addysg yn gallu cynnal sesiynau diogelwch ar-lein ar gyfer rhieni a gofalwyr.

Mae cyfraniad rhieni a gofalwyr at gadw dysgwyr yn ddiogel ar-lein yn arwyddocaol. Er mwyn cynorthwyo ysgolion i ymgysylltu â rhieni a gofalwyr er mwyn eu helpu i ddatblygu eu sgiliau a'u hymwybyddiaeth diogelwch ar-lein, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ariannu SWGfL i ddatblygu deunyddiau newydd fel bod ymarferwyr addysg yn gallu cynnal sesiynau diogelwch ar-lein ar gyfer rhieni a gofalwyr.

**Diweddariad ar gyfer 2019**

Yn 2018–19, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru pedwar pecyn addysg newydd i ysgolion ar gyfer cynnal gweithdai i rieni a gofalwyr ar y cyfryngau cymdeithasol, gemau, a bwlio ar-lein – dau ar gyfer dysgwyr cynradd a dau ar gyfer dysgwyr uwchradd.

Mae'r set hon o ddeunyddiau yn cynnwys popeth sydd ei angen ar ysgolion i gynnal gweithdy i rieni a gofalwyr ar y pynciau hyn. Nid oes angen gwybodaeth arbenigol, gan fod yr adnodd yn cynnwys nodiadau canllaw a chyfarwyddiadau i'r cyflwynydd, ynghyd â chyflwyniad y gellir ei addasu, ffurflen adnodd, a thaflen o awgrymiadau i rieni a gofalwyr.

**Statws y cam gweithredu: Cyflawnwyd.**

**37. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda Common Sense Media ac SWGfL i ddatblygu a chyhoeddi dros 50 o gynlluniau gwers dwyieithog ac adnoddau cysylltiedig yn ymwneud â materion diogelwch ar-lein amrywiol.**

Mae Common Sense Media ac SWGfL yn arbenigwyr mewn darparu canllawiau ac adnoddau i gefnogi diogelwch ar-lein a llythrennedd digidol. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda'r sefydliadau hyn i sicrhau bod rhanddeiliaid addysg yng Nghymru yn gallu cael gafael ar yr adnoddau diogelwch ar-lein a llythrennedd digidol diweddaraf.

**Diweddariad ar gyfer 2019**

Ers 2014, mae ymarferwyr addysg ar draws Cymru wedi gallu defnyddio ystod o adnoddau defnyddiol i gefnogi eu haddysgu ynghylch diogelwch ar-lein yn y dosbarth.

Gan weithio gyda Common Sense Media a SWGfL, mae Llywodraeth Cymru wedi addasu a chyfieithu chwe deg pump o gynlluniau gwersi er mwyn helpu ymarferwyr i weithredu'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol.

Mae *Adnodd Diogelwch Ar-lein i Gymru*[11] yn cynnwys pump o gynlluniau gwersi ar gyfer pob grŵp blwyddyn, o'r Cyfnod Sylfaen i Flwyddyn 13. Maent yn cwmpasu wyth maes allweddol yn ymwneud â diogelwch ar-lein, gan gynnwys olion traed digidol, cydnabyddiaeth greadigol a hawlfraint, hunanddelwedd a hunaniaeth, a chyfathrebu perthnasoedd.

**Statws y cam gweithredu: Cyflawnwyd.**

[11] hwb.llyw.cymru/parthau/diogelwch-ar-lein/adnodd-diogelwch-ar-lein-i-gymru

**38. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i adolygu, diweddaru a chyhoeddi'r *Adnodd Diogelwch Ar-lein i Gymru* ar Hwb.**

Mae'r *Adnodd Diogelwch Ar-lein i Gymru* yn set o gynlluniau gwers y gall ysgolion eu defnyddio i addysgu diogelwch ar-lein a llythrennedd digidol i bob grŵp blwyddyn, o'r Cyfnod Sylfaen hyd at Gyfnod Allweddol 5. Maent yn seiliedig ar adnodd diogelwch ar-lein di-dâl Common Sense Media, sy'n grymuso dysgwyr i feddwl mewn ffordd feirniadol, ymddwyn yn ddiogel, a chyfrannu mewn ffordd gyfrifol at ein byd digidol.

**Diweddariad ar gyfer 2019**

Yn dilyn gwaith pellach gan Lywodraeth Cymru ar yr *Adnodd Diogelwch Ar-lein i Gymru*[12] ym mis Medi 2018, cyhoeddwyd y cynlluniau gwersi dwyieithog ar ffurf rhestrau chwarae. Gall defnyddwyr lywio i'r cynllun perthnasol a'i lawrlwytho naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg.

**Statws y cam gweithredu: Cyflawnwyd.**

[12] hwb.llyw.cymru/parthau/diogelwch-ar-lein/adnodd-diogelwch-ar-lein-i-gymru

## 39. Bydd Llywodraeth Cymru yn talu'n rhannol am ddatblygu adnodd camfanteisio'n rhywiol ar blant ar gyfer dysgwyr Blwyddyn 6.

Ym mis Rhagfyr 2015, lansiodd Llywodraeth Cymru becyn adnoddau addysg Newydd – *Cudd: Adnodd Addysgol am Gamfanteisio Rhywiol ar Blant* – a ddatblygwyd gyda Barnardo's Cymru. Nod yr adnodd oedd helpu ymarferwyr addysg i fynd i'r afael yn yr ystafell ddosbarth â phwnc anodd camfanteisio'n rhywiol ar blant.

Yn dilyn adborth gan randdeiliaid ar hyfforddiant yn ymwneud â'r adnodd *Cudd*, nodwyd pryderon bod plant o dan 14 oed mewn perygl o ddioddef camfanteisio rhywiol ond na fyddai'r adnodd yn briodol ar gyfer y grŵp oedran hwn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu gwaith i ddatblygu adnodd camfanteisio'n rhywiol ar blant ychwanegol ar gyfer dysgwyr Blwyddyn 6. Mae'r adnodd hwn wedi'i ariannu'n rhannol gan Lywodraeth Cymru a phedwar rhanbarth yr heddlu ledled Cymru.

**Diweddariad ar gyfer 2019**

Mae Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan wedi datblygu adnodd i'w chyflwyno mewn ysgolion ynghylch cam-fanteisio ar blant, sef ffilm fer o'r enw 'Stori Griff'.

Caiff y ffilm ei defnyddio gan Swyddogion School Beat i gynnal sesiynau ynghylch cam-fanteisio'n rhywiol ar blant.

Cafodd yr adnodd ei lansio'n swyddogol gan y Gweinidog Addysg, Kirsty Williams AC, ym mis Mawrth 2019 a'i dreialu mewn nifer o ysgolion[13].

Caiff yr adnodd ei chyflwyno i bob dysgwr ym Mlwyddyn 6 o fis Medi 2019.

Mae'r ffilm ar gael i bob dysgwr a gallwch ei gwylio ar-lein yn www.youtube.com/watch?v=1d7feP_O7oM.

**Statws y cam gweithredu: Cyflawnwyd.**

[13] https://schoolbeat.cymru/cy/newyddion/2019-lansiad-stori-griff/

## 40. Bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu ac y cyflwyno adnodd archwilio diogelwch a chanllaw cysylltiedig i'w defnyddio gan ysgolion er mwyn asesu darpariaeth diogelu.

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu gwaith i ddatblygu adnodd asesu ac archwilio diogelwch. Bydd yr adnodd archwilio yn cynorthwyo lleoliadau addysg i ddatblygu eu prosesau diogelu a hyrwyddo cysondeb cenedlaethol wrth gyflawni dyletswyddau yn unol â chanllawiau *Cadw dysgwyr yn ddiogel*. Bydd yr adnodd archwilio yn cael ei gyflwyno yn 2018–19 a bydd Llywodraeth Cymru yn comisiynu gwerthusiad o'r adnodd ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf. Y bwriad hirdymor ar ôl y gwerthusiad hwn yw sefydlu'r pecyn adnoddau fel rhan o'r canllawiau *Cadw dysgwyr yn ddiogel*.

**Diweddariad ar gyfer 2019**

Yn ystod 2019–20, bydd yr adnodd archwilio diogelwch yn cael ei gynnwys yng nghanllawiau diwygiedig *Cadw dysgwyr yn ddiogel* fel mater o arfer effeithiol i bob lleoliad addysg. Nod yr adnodd hwn yw cefnogi pob lleoliad addysg i adolygu eu trefniadau diogelu. Bydd yn eu helpu i nodi cryfderau a'r hyn sydd angen ei wella yn eu trefniadau diogelu, ac i sicrhau eu bod yn cyflawni eu rhwymedigaethau diogelu cyfreithiol yn unol â chanllawiau statudol *Cadw dysgwyr yn ddiogel*.

Dylid defnyddio'r adnodd fel rhan o ddull gweithredu ysgol gyfan ar gyfer diogelu ac i ddarparu meincnod ar gyfer datblygu a gwella'n barhaus.

**Statws y cam gweithredu: Ar y gweill.**

## 41. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r NSPCC i ddarparu fersiwn dwyieithog newydd o adnoddau *Net Aware* yr NSPCC.

Mae adnoddau *Net Aware* yr NSPCC yn ganllawiau ar gyfer rhieni a gofalwyr ar rwydweithiau cymdeithasol; maent ar gael trwy gyfrwng y Saesneg yn unig ar hyn o bryd. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r NSPCC i ddarparu fersiwn dwyieithog newydd o'r adnoddau hyn.

**Diweddariad ar gyfer 2019**

Mae adnoddau *Net Aware* yn ganllawiau a grëwyd gan NSPCC ac $O_2$ ar gyfer rhieni/gofalwyr ar y gwefannau, apiau a gemau mwyaf poblogaidd a ddefnyddir gan bobl ifanc. Mae'r cynnwys yn seiliedig ar adolygiadau gan bobl ifanc a rhieni a gofalwyr. Mae'r canllawiau hyn yn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar rieni a gofalwyr i ddeall byd ar-lein eu plant a'u helpu i'w cadw'n ddiogel.

Yn 2008, cydweithiodd Llywodraeth Cymru â'r NSPCC i greu cyfres o ddeg rhestr chwarae ddwyieithog[14] sy'n crynhoi adnoddau *Net Aware*. Maent yn cwmpasu meysydd fel preifatrwydd a sgoriau oedran.

Mae'r adnoddau canlynol ar gael yn y Parth Diogelwch Ar-lein ar Hwb.

- Snapchat
  hwb.llyw.cymru/repository/resource/9cbd0384-d6ad-45ca-ba5d-9d5a5c743c48/cy
- Roblox
  hwb.llyw.cymru/repository/resource/69d2d409-75a6-46f6-a157-1c14032947a5/cy
- SoundCloud
  hwb.llyw.cymru/repository/resource/c8fbfd71-1f3a-431a-8b6b-c9428a041360/cy
- Twitter
  hwb.llyw.cymru/repository/resource/c2c474d4-435c-4dd8-a9be-f45ce9f2f788/cy
- YouTube
  hwb.llyw.cymru/repository/resource/91a8d16c-55c8-4197-b5b0-081198abaa4d/cy
- WhatsApp
  hwb.llyw.cymru/repository/resource/754c1eac-0eb8-4d94-87d7-898e3d6841f1/cy
- Instagram
  hwb.llyw.cymru/repository/resource/36db3900-ac10-4597-82e7-0fe8ca989096/cy
- Minecraft: Pocket Edition
  hwb.llyw.cymru/repository/resource/1dad74fc-4053-4450-9062-2913b7027f70/cy
- Twitch
  hwb.llyw.cymru/repository/resource/f0d20a6e-e51b-4923-aae8-98f54a620315/cy
- Facebook and Messenger
  hwb.llyw.cymru/repository/resource/ab308eb4-a2ab-457f-9cd9-262e857e77a2/cy

**Statws y cam gweithredu: Cyflawnwyd.**

[14] hwb.llyw.cymru/news/articles/31c4f4b3-c9ed-435e-b899-7bd224ab9b2e

**42. Bydd y fersiwn diweddaraf o becyn cymorth cwnsela Llywodraeth Cymru yn cynnwys pennod ar gwnsela ar-lein, gan roi arweiniad ar ddarparu gwasanaeth ar-lein diogel.**

Mae'n rhaid i awdurdodau lleol yng Nghymru ddarparu gwasanaethau cwnsela rhesymol ar gyfer plant a phobl ifanc rhwng 11 a 18 oed yn eu hardal, ac ar gyfer dysgwyr Blwyddyn 6 mewn ysgolion cynradd. Hefyd, mae rhai awdurdodau lleol yn dewis cynnig gwasanaeth cwnsela ar-lein i ategu eu gwasanaeth cwnsela wyneb yn wyneb.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid i ddiweddaru'r *Pecyn Cymorth Cwnsela Mewn Ysgolion* (2011)[15] sydd wedi'i anelu at gwnselwyr, rheolwyr gwasanaethau cwnsela, awdurdodau lleol ac ysgolion. Bydd y pecyn cymorth diwygiedig yn cynnwys cyngor ar wasanaethau cwnsela ar-lein, gan nodi bod angen i wasanaeth cwnsela ar-lein ystyried:

- yr angen i weithredu ar lwyfan saff a diogel
- gofynion amddiffyn a diogelu plant
- addasrwydd y cleient ar gyfer y llwyfan y gofynnwyd amdano, ei oedran, gan gynnwys cymhwysedd Gillick (term a ddefnyddir i benderfynu a yw plentyn (o dan 16 oed) yn gallu cydsynio i'w driniaeth feddygol ei hun, heb fod angen caniatâd neu wybodaeth rhiant), a dealltwriaeth fanwl o faterion yn ymwneud â chydsyniad a chyfrinachedd
- protocolau a mecanweithiau technegol ar gyfer cefnogi cleientiaid mewn argyfwng
- defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol.

**Diweddariad ar gyfer 2019**

Yn 2018–19, datblygwyd pecyn cymorth drafft anffurfiol ac ymgynghorwyd â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys darparwyr cwnsela awdurdodau lleol a Chymdeithas Cwnsela a Seicotherapi Prydain. Mae ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol wedi'i gynllunio ar gyfer 2019 a bwriedir cyhoeddi'r fersiwn derfynol yn 2020.

**Statws y cam gweithredu: Ar y gweill.**

[15] llyw.cymru/cwnsela-mewn-ysgolion-pecyn-cymorth

## Hyfforddiant a datblygiad

**43. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu rhaglen hyfforddiant gynhwysfawr yn ymwneud â diogelwch ar-lein, gan ganolbwyntio ar feysydd diogelwch ar-lein penodol.**

Cyflwynwyd rhaglen o ddigwyddiadau hyfforddi rhwng mis Ebrill 2017 a mis Mawrth 2018, gan gynnwys 36 o ddigwyddiadau hanner diwrnod dwyieithog ledled Cymru yn ymwneud â'r pynciau canlynol.

- Defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn ddiogel a cham-drin athrawon ar-lein.
- Diogelwch ar-lein ar gyfer personau uwch dynodedig ar gyfer amddiffyn plant.
- Deall a mynd i'r afael yn effeithiol â bwlio ar-lein a chasineb ar-lein.

Trwy gyfrwng contract gyda SWGfL, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddatblygu a chyflwyno rhaglen hyfforddi diogelwch ar-lein. Bydd rhaglen 2018–19 yn cynnwys y 36 o sesiynau hyfforddi dwyieithog yn ymwneud â'r themâu canlynol.

- Y rhyngrwyd ac iechyd meddwl.
- Cynnwys niweidiol ar-lein.
- Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a'r goblygiadau i ysgolion.

**Diweddariad ar gyfer 2019**

Yn 2018–19, cynigiwyd dau ddeg pedwar o sesiynau hyfforddiant hanner diwrnod ar themâu penodol i ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol ym maes addysg. O'r 24 sesiwn hon, cynhaliwyd 15 ohonynt a hynny i gyfanswm o 165 o gynrychiolwyr. Roedd yr hyfforddiant yn cwmpasu'r themâu canlynol:

- y rhyngrwyd ac iechyd meddwl
- y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a'r goblygiadau i ysgolion.

Ar ôl adolygiad canol blwyddyn o'r rhaglen hyfforddi, cytunwyd y byddai gweddill y rhaglen ar gyfer 2018–19 yn cael ei theilwra i flaenoriaethau hyfforddiant pob consortia rhanbarthol er mwyn sicrhau bod cymaint â phosibl yn mynychu'r sesiynau. Gwnaeth pob consortia rhanbarthol ddefnyddio'r ddarpariaeth mewn ffordd wahanol. Er enghraifft, gwnaeth rhai ddewis hyfforddi eu cynghorwyr herio a gwnaeth eraill ganolbwyntio ar 360 degree safe Cymru. Cynhaliwyd un deg a phedwar o sesiynau ar gyfer 547 o gynrychiolwyr.

Cynhaliwyd hefyd un ar ddeg o ddigwyddiadau 'Diogelwch Ar-lein yn Fyw' a wnaeth roi trosolwg o faterion a heriau diogelwch ar-lein i 158 o bobl. Cafodd sesiynau eu cynnal ym Mhorthcawl, Llanelli, Bae Colwyn, Felinfach, Caerdydd, Glannau Dyfrdwy, Ynys Môn, Aberystwyth, Caerffili, Trefynwy a Sili.

Yn ogystal, gwnaeth SWGfL ddarparu hyfforddiant i 100 o Swyddogion School Beat ym mis Ionawr 2019, a hynny dros bedair sesiwn ym Mae Colwyn, Caerfyrddin, y Coed-duon a Phen-y-bont ar Ogwr. Cafodd cyfanswm o 970 o bobl hyfforddiant drwy'r rhaglen hon.

Yn ystod 2019–20, bydd rhaglen hyfforddiant bwrpasol o 18 diwrnod yn cael eu darparu i'r consortia rhanbarthol. Bydd y rhaglen yn cael ei chytuno ag arweinydd digidol pob consortiwm rhanbarthol.

**Statws y cam gweithredu: Ar y gweill.**

## 44. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i hyrwyddo'r modiwl *Cadw dysgwyr yn ddiogel – Diogelwch ar-lein*.

Er mwyn helpu i sefydlu'r canllawiau *Cadw dysgwyr yn ddiogel*, aeth Llywodraeth Cymru ati i gyhoeddi dau fodiwl e-ddysgu a modiwl astudiaethau achos, gan archwilio sefyllfaoedd diogelu penodol sy'n debyg iawn i gynnwys a fformat canllawiau *Cadw dysgwyr yn ddiogel*. Lansiwyd y modiwlau ar Hwb yn ystod Wythnos Diogelu ym mis Tachwedd 2016. Mae'r modiwlau wedi'u bwriadu ar gyfer holl aelodau staff mewn lleoliad addysgol, ac yn cynnwys:

- modiwl rhagarweiniol sy'n amlinellu ystyr diogelu, deddfau, polisïau a phwysigrwydd creu amgylchedd diogel, yn ogystal â chwalu rhai camsyniadau cyffredin
- modiwl i helpu holl aelodau staff i ddeall sut i ddiogelu dysgwyr, prosesau cyffredin a rôl y person uwch dynodedig
- modiwl rhyngweithiol i asesu dysgu trwy astudiaethau achos – mae'r astudiaethau achos wedi'u cynllunio i'w cwblhau yn unigol, ac mae modd eu tynnu o'r modiwl a'u defnyddio yn ystod diwrnodau HMS fel pwnc trafod grŵp ymarferwyr.

Mae dau fodiwl newydd wedi'u hychwanegu at y gyfres *Cadw dysgwyr yn ddiogel*, gan ganolbwyntio'n benodol ar ddiogelwch ar-lein. Fel y modiwlau blaenorol, mae'r modiwlau hyn ar gael ar Hwb trwy restr chwarae. Mae'r modiwlau newydd wedi'u datblygu i ddarparu cyflwyniad cadarn i ddiogelu ar-lein ar gyfer ymarferwyr addysg a llywodraethwyr o bob math, gan nodi'r effaith ar ddiogelu dysgwyr.

Maent yn cynnwys gwybodaeth gefndir am y problemau diogelu sy'n gallu codi ar-lein ac yn nodi rhai o'r apiau a'r gwasanaethau sy'n cael eu defnyddio gan bobl ifanc. Hefyd, mae pob rhestr chwarae yn cynnwys dolenni gwahanol i ddogfennau a chanllawiau defnyddiol a pherthnasol.

**Diweddariad ar gyfer 2019**

Yn 2018–19, gwnaeth Llywodraeth Cymru barhau i hyrwyddo modiwlau hyfforddiant *Cadw dysgwyr yn ddiogel* ar ddiogelwch ar-lein, gan dynnu sylw atynt yn y Parth Diogelwch Ar-lein ar Hwb. Edrychwyd ar y modiwlau hyn 16,000 o weithiau hyd yma.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i hyrwyddo'r modiwlau *Cadw dysgwyr yn ddiogel*. Gan ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a'r Parth Diogelwch Ar-lein, byddwn yn parhau i dynnu sylw at y modiwlau a'u nodau yn ystod 2019–20, ac yn annog ymarferwyr addysg a llywodraethwyr i gwblhau'r modiwlau fel rhan o'u datblygiad proffesiynol unigol.

**Statws y cam gweithredu: Parhaus.**

## 45. Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod diogelwch ar-lein yn parhau i fod yn rhan allweddol o'r oll weithgarwch yn ymwneud â chynhwysiant digidol.

Mae Polisi Cynhwysiant Digidol Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio'n bennaf ar oedolion 16 oed a throsodd, a phedwar grŵp blaenoriaeth yn benodol:

- pobl hŷn
- pobl anabl
- pobl sy'n byw mewn tai cymdeithasol
- pobl economaidd anweithgar a'r di-waith.

Mae pryderon yn ymwneud ag ymddiriedaeth a diogelwch yn parhau i fod yn rhwystr mawr i nifer rhag defnyddio'r rhyngrwyd a thechnolegau eraill. Gall mynd i'r afael phryderon diogelwch sylfaenol, a thynnu sylw at y rhagofalon y dylai pobl eu cymryd, gynyddu hyder defnyddwyr newydd i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd helaeth y mae'r byd digidol yn eu cynnig. Mae'r rheini nad ydynt yn defnyddio technoleg ddigidol neu sy'n gwneud defnydd cyfyngedig ohono yn colli cyfle i fanteisio ar wasanaethau cyhoeddus digidol gwell ynghyd â bargeinion gwell a nwyddau rhatach, a hefyd cyfleoedd i wella eu lles, cysylltiadau cymdeithasol, diogelwch ariannol ac iechyd.

Drwy ein Rhaglen Cymunedau Digidol Cymru: Hyder Digidol, Iechyd a Lles (Gorffennaf 2019 i Fehefin 2022), byddwn yn cynnwys diogelwch ar-lein yn ein hyfforddiant ar gyfer staff rheng flaen, gwirfoddolwyr ac Arwyr Digidol (gwirfoddolwyr ifanc). Yn ogystal, gan weithio gyda'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol, byddwn yn cyfeirio unigolion a theuluoedd i gyngor ar seiberddiogelwch.

Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod diogelwch ar-lein yn cael ei gynnwys fel pwnc allweddol mewn deunydd hyfforddi cynhwysiant digidol o bob math ar gyfer staff a gwirfoddolwyr, er enghraifft:

- hyfforddiant staff rheng flaen
- Her Gymunedol Cynhwysiant Digidol Bagloriaeth Cymru
- Arwyr Digidol (gwirfoddolwyr ifanc)
- Cyfeillion Digidol (gwirfoddolwyr sy'n gyfoedion).

**Diweddariad ar gyfer 2019**

Mae'r hyfforddiant a ddarperir drwy ein Rhaglen Cymunedau Digidol Cymru: Hyder Digidol, Iechyd a Lles, sy'n werth £2 filiwn y flwyddyn, yn cynnwys cynghorion ar sut i gadw'n ddiogel ar-lein, gan gynnwys diogelu preifatrwydd, sy'n cael eu rhannu â dinasyddion drwy staff rheng flaen a gwirfoddolwyr.

Mae diogelwch ar-lein yn rhan allweddol o'r hyfforddiant y mae ein 4,600 o Arwyr Digidol (gwirfoddolwyr ifanc) wedi'i gael er mwyn iddynt allu helpu pobl hŷn mewn ysbytai a chartrefi gofal i gadw mewn cysylltiad â ffrindiau a theulu neu i ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus ar-lein, fel nad ydynt yn cael eu gadael ar ôl.

Rydym wedi ariannu'r cyfieithiad Cymraeg o'r platfform 'Learn My Way' ar gyfer datblygu sgiliau digidol sylfaenol ar-lein, sy'n cynnwys adnoddau ar gadw eich data personol yn ddiogel, cadw eich dyfais yn ddiogel a sut i fod yn ddiogel ar-lein. Mae'r platfform hwn yn helpu unigolion i ddatblygu sgiliau digidol sylfaenol am ddim, ar gyflymder ac mewn lleoliad sy'n gyfleus iddynt.

**Statws y cam gweithredu: Parhaus.**

## 46. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid allweddol i ddarparu deunydd hyfforddiant a chymorth yn ymwneud â materion gwrthderfysgaeth.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gydag Uned Eithafiaeth a Gwrthderfysgaeth Cymru (WECTU), penaethiaid ac arweinwyr diogelu i ddarparu hyfforddiant priodol ar faterion yn ymwneud â gwrthderfysgaeth, gan sicrhau bod gweithdrefnau a phrosesau ar waith mewn ysgolion, a'u bod yn gyfarwydd â'r prosesau a'r gweithdrefnau hyn. Un o nodweddion allweddol Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 yw'r ddyletswydd ar ysgolion a cholegau i roi sylw dyledus, wrth arfer eu swyddogaethau, i atal pobl rhag cael eu tynnu i derfysgaeth. Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi *Prevent Duty Guidance for England and Wales* (Saesneg yn unig) ar gyfer sefydliadau penodedig, gan gynnwys darparwyr addysg.

Fel rhan o Prevent, mae gan ysgolion ddyletswydd i sicrhau bod staff wedi'u hyfforddi i nodi'r rhai sydd mewn perygl o gael eu radicaleiddio.

Er mwyn helpu i gyflwyno 'Prevent', mae Llywodraeth Cymru wedi:

- cyhoeddi a diweddaru'r fersiwn o'n dogfen ganllawiau *Gwrthsafiad a pharch – Datblygu cydlyniant cymunedol* sy'n cynnwys pecyn cymorth hunanasesu cysylltiedig; mae'r canllawiau yn sicrhau bod gan ysgolion yng Nghymru wybodaeth i'w helpu i fodloni gofynion cyfreithiol Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015
- cyhoeddi *Ymddiried ynof fi Cymru*, sef adnodd ystafell ddosbarth dwyieithog wedi'i greu gan Childnet fel rhan o Ganolfan Rhyngrwyd Mwy Diogel y DU, sy'n mynd i'r afael â rhagfarn a phropaganda ar-lein.

Ysgrifennodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ar y pryd at yr awdurdodau lleol yn ddiweddar yn gofyn am sicrwydd bod gan ysgolion weithdrefnau priodol ar waith.

**Diweddariad ar gyfer 2019**

Er nad yw gwrth-derfysgaeth yn fater datganoledig, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos â Thîm 'Prevent' y DU ac Uned Eithafiaeth a GwrthDerfysgaeth Cymru (WECTU).

Yn y modiwlau hyfforddi 'Prevent' sydd ar gael ar-lein ar hyn o bryd (tri i gyd), mae fersiwn Gymraeg ar gael ar gyfer y ddau gyntaf. Gallwch lawrlwytho'r cwrs hyfforddi yn y Gymraeg a gweld fideos gyda is-deitlau Cymraeg yn www.elearning.prevent.homeoffice.gov.uk/edu/screen1.html#

Bydd yr adolygiad o hyfforddiant 'Prevent' yn sicrhau bod yr hyfforddiant ar gael yn ddwyieithog yn y dyfodol.

**Ymwybyddiaeth o 'Prevent'**
Cyflwyniad ar ffurf pecyn e-ddysgu i ddyletswydd 'Prevent', sef diogelu pobl agored i niwed rhag cael eu radicaleiddio i gefnogi gwrthderfysgaeth neu i ddod yn derfysgwyr eu hunain.
www.elearning.prevent.homeoffice.gov.uk

**Atgyfeiriadau 'Prevent'**
Mae'r pecyn hwn yn adeiladu ar hyfforddiant e-ddysgu i godi ymwybyddiaeth o 'Prevent'. Fe'i cynlluniwyd i sicrhau, pan fyddwn yn rhannu pryder bod unigolyn yn cael eu radicaleiddio, bod yr atgyfeiriad yn gadarn, yn wybodus ac â bwriad da a bod yr ymateb i'r pryder hwnnw'n bwyllog ac yn gymesur.
www.elearning.prevent.homeoffice.gov.uk/preventreferrals (Saesneg yn unig)

**Ymwybyddiaeth o Sianel (Channel)**
Mae'r pecyn hyfforddiant hwn ar gyfer unrhyw un y gofynnir iddynt gyfrannu at neu fod yn aelod o Banel Sianel (Channel Panel) neu arwain panel o'r fath. Mae'n becyn ar gyfer pob lefel, o weithiwr proffesiynol y gofynnir iddo gyfrannu neu fynychu am y tro cyntaf, i aelod o staff sy'n newydd i'w rôl ac yn trefnu cyfarfod o'r panel.
www.elearning.prevent.homeoffice.gov.uk/channelawareness (Saesneg yn unig)

**Porth e-ddysgu 'Prevent'**
Mae Llywodraeth y DU wrthi'n gweithio gyda chontractiwr i wneud newidiadau i'r safle er mwyn cydymffurfio â Safonau Digidol y Llywodraeth. Cynhaliwyd nifer o gyfweliadau gyda defnyddwyr er mwyn deall sut maent yn defnyddio'r wefan ac i nodi gwelliannau i wella'r profiad hyfforddi. Cam nesaf y prosiect fydd ymgorffori'r newidiadau cychwynnol a chynnal ymgynghoriad/cyfweliadau pellach â defnyddwyr lle bydd cyfle i Lywodraeth Cymru a chydweithwyr 'Prevent' gyfrannu at y broses. Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r sefydliadau partner ar gynnydd ac amserlenni er mwyn iddynt allu darparu cynrychiolwyr wrth i'r gwaith fynd rhagddo. Bydd y gofynion o ran y Gymraeg yn cael eu hadolygu yn ystod y cam hwn.

**Llawlyfr hyfforddiant 'Prevent' (dyddiedig Mawrth 2016)**
Mae adolygiad yn mynd rhagddo ar hyn o bryd o'r ddarpariaeth ar gyfer trydydd parti. Mae catalog cyhoeddedig o ddarparwyr eisoes ar gael, a bydd dogfen safonau hyfforddiant yn cael ei chyhoeddi fel rhan o'r adolygiad er mwyn i gyflenwyr a'r rheini sy'n pwrcasu hyfforddiant allu ei dilyn a chyfeirio ati. Bydd hyn yn rhoi sicrwydd wrth bwrcasu hyfforddiant, ond hefyd yn sicrhau bod darparwyr yn cynnig cynhyrchion o ansawdd uchel sy'n bodloni'r agenda 'Prevent'. Cynhelir ymgynghoriad ar y safonau maes o law.

Mae WECTU yn gweithio'n agos â swyddogion arweiniol Llywodraeth Cymru ar y canlynol.

- Adnoddau sy'n gysylltiedig â Cymru yn Cyd-dynnu – cysylltu â phrosiect Cymru yn Cyd-dynnu wrth rannu gwybodaeth ag athrawon ac ati am brosesau atgyfeirio risg/bygythiad. Mae gan brosiect Cymru yn Cyd-dynnu fodiwlau a ddefnyddir mewn ysgolion yn nifer o'r awdurdodau lleol yng Nghymru. Ceir modiwlau ar gyfer dysgwyr uwchradd ac ar gyfer dysgwyr dan 11 oed. Ceir cysylltiad Ewropeaidd hefyd drwy gysylltiadau a ariennir gan Erasmus.

- Gwaith Swyddogion School Beat ar eithafiaeth – ceir 65 o Swyddogion School Bear ar draws Cymru sydd eisoes yn gweithredu fel pwynt cyswllt i ysgolion ar yr agenda hon, ac mae modiwl gwell yn cael ei ddatblygu sy’n cynnwys ffilmio golygfa gychwynnol.
- Gorgyffwrdd â gwaith ar gydlyniant/troseddau casineb – yn sgil natur drawsbynciol yr agenda, mae gwaith ‘Prevent’ yn gysylltiedig ag ymgyrchoedd rhai sefydliadau anllywodraethol, e.e. ‘Show racism the red card’, a’r agenda ddiogelu ehangach (sy’n ymdrin â diogelwch ar-lein, ac ati).
- Ysgolion Caerdydd – Caerdydd yw unig ardal flaenoriaeth y Swyddfa Gartref ar gyfer ‘Prevent’ yng Nghymru ac, yn sgil hynny, mae’n elwa ar gyllid ar gyfer cydgysylltydd ‘Prevent’ a swyddogion arweiniol ar gyfer mynd i’r afael ag eithafiaeth.
- Mentrau sy’n dod i’r amlwg – mae cysylltiadau Llywodraeth Cymru ym maes polisi addysg wedi cefnogi briffiau gan WECTU i’r Prif Weinidog ar yr agenda hon. Bydd WECTU yn parhau i gefnogi partneriaid Llywodraeth Cymru drwy ddarparu gwybodaeth wrth iddynt geisio datblygu a gwella’r dysgu a ddarperir ynghylch yr agenda ‘Prevent’ a diogelu.
- Cloi ysgolion dros dro – mae dealltwriaeth o’r agenda Diogelu/Paratoi yn aml yn gorgyffwrdd â ‘Prevent’ ac ystyriaeth o drefniadau cloi ac adrodd ysgolion.

**Statws y cam gweithredu: Parhaus.**

## Meysydd gwaith newydd ar gyfer 2019

Yn 2019, mae Llywodraeth Cymru yn adeiladu ar waith blaenorol ac yn archwilio meysydd gwaith newydd sy'n cael effaith bositif ar gadw plant a phobl ifanc yn ddiogel ar-lein. Mae'r deuddeg cam gweithredu hyn yn newydd i'r *Cynllun gweithredu diogelwch ar-lein i blant a phobl ifanc yng Nghymru 2019.*

**1. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ariannu Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan yn 2019–20 mewn partneriaeth â'r heddlu. Mae diogelwch ar-lein yn faes a gwmpesir gan y rhaglen.**

Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi cyllid i'r Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan mewn partneriaeth â'r heddlu. Mae'r rhaglen hon yn darparu addysg ar gamddefnyddio sylweddau a materion cymunedol a diogelwch personol ehangach, gan gynnwys diogelwch ar-lein, ym mhob cyfnod allweddol yn y cwricwlwm ymhlith ystod o wersi eraill.

Mae trafodaethau'n parhau rhwng swyddogion a'r heddlu ynghylch sut olwg fydd ar y rhaglen y tu hwnt i 2020 o ystyried rhaglenni ieuenctid a rhaglenni ymyrraeth gynnar eraill. Felly fel rhan o hyn, mae'r rhaglen yn cael ei diwygio ar hyn o bryd ac mae'r heddlu'n arwain ar hyn. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid i ystyried yr argymhellion o adolygiad y rhaglen ac, yn benodol, sut y bydd yn ategu'r gwaith i ddiwygio'r cwricwlwm.

Bydd y cam gweithredu hwn yn yr adran 'Cydweithio'.

**2. Bydd Llywodraeth Cymru yn cydweithio â'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol i hyrwyddo rhaglenni 'Cyber First' yng Nghymru.**

Mae rhaglenni 'Cyber First' y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol yn rhoi cyfle i bobl ifanc ddysgu mwy am seiberddiogelwch. Rydym yn awyddus i sicrhau bod pobl ifanc yng Nghymru'n ymwybodol o'r cyrsiau hyn ac yn gallu elwa arnynt.

Bydd y cam gweithredu hwn yn yr adran 'Cydweithio'.

**3. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Get Safe Online i sicrhau bod eu gwefan Gymraeg newydd yn cael ei lansio'n effeithiol.**

Mae adrannau cyngor penodol ar y wefan 'Get Safe Online', sydd wedi'u blaenoriaethu, wedi'u cyfieithu i'r Gymraeg drwy ddefnyddio cyllid gan Lywodraeth Cymru, a bydd rhai o'r rhain yn berthnasol i blant a phobl ifanc.

Bydd y cam gweithredu hwn yn yr adran 'Cydweithio'.

**4. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r cenhedloedd datganoledig eraill a Llywodraeth y DU i rannu arfer da o ran diogelwch ar-lein ac archwilio cyfleoedd i gydweithredu.**

Gan gydnabod y materion cyffredin sy'n gysylltiedig â diogelwch ar-lein, bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr i rannu arfer da a dysgu ac i archwilio cyfleoedd i gydweithredu.

Bydd y cam gweithredu hwn yn yr adran 'Cydweithio'.

**5. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Google a ParentZone i gefnogi eu rhaglen addysg ar ddiogelwch ar-lein.**

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Google a ParentZone i gefnogi'r broses o gyflwyno'r rhaglen addysg 'Be Internet Legends'[16]. Nod y rhaglen hon yw ceisio grymuso plant 7 i 11 oed i ddefnyddio'r rhyngrwyd yn ddiogel ac yn hyderus.

Bydd y cam gweithredu hwn yn yr adran 'Cydweithio'.

**6. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod pobl ifanc yn gallu cael hyd i wybodaeth a chyngor sydd ar gael i helpu i godi ymwybyddiaeth am hunan-niweidio a hunanladdiad.**

Gan weithio gyda'r Grŵp Cynghori Cenedlaethol ar Hunanladdiad a Hunan-niwed a Phrifysgol Abertawe, byddwn yn cynhyrchu canllawiau ar-lein i athrawon a gweithwyr proffesiynol eraill er mwyn normaleiddio sgyrsiau â phobl ifanc am hunan-niweidio a hunanladdiad gyda'r nod o'u cyhoeddi yn ystod 2019–20. Ategir hyn gan ganllawiau pellach ar gyfer 2020–21, gan ddechrau gyda phecyn cymorth wedi'i gynllunio gan bobl ifanc ar gyfer pobl ifanc er mwyn gwella'r wybodaeth sydd ar gael am negeseuon ar-lein am hunan-niwed, effaith bwlio ar-lein ac ymyriadau posib gan bobl empathetig.

Bydd y cam gweithredu hwn yn yr adran 'Cydweithio'.

[16] https://beinternetlegends.withgoogle.com/en_uk (Saesneg yn unig)

## 7. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol i archwilio cyfleoedd gydweithio er mwyn darparu addysg a chodi ymwybyddiaeth o gam-drin a cham-fanteisio ar blant ar-lein.

Mae botwm Click CEOP yn un o asedau Canolfan Camfanteisio ar Blant a'u Hamddifyn Ar-Lein (CEOP) yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol. Mae'r Asiantaeth Troseddu Cenedlathol yn ymrwymo i ddiogelu'r cyhoedd rhag troseddau difrifol a threfnedig, a rôl CEOP yw mynd i'r afael â cham-drin a cham-fanteisio'n rhywiol ar blant, ar-lein ac all-lein. Mae'r CEOP yn erlid y rheini sy'n cam-drin ac yn cam-fanteisio'n rhywiol ar blant, yn ceisio atal pobl rhag cam-fanteisio'n rhywiol ar blant, yn diogelu plant rhag dod yn ddioddefwyr camdriniaeth a cham-fanteisio rhywiol, ac yn paratoi ymyriadau i leihau effaith camdriniaeth a cham-fanteisio rhywiol ar blant drwy waith ar amddiffyn a diogelu plant. Mae Tîm Addysg yn CEOP yn darparu'r rhaglen addysg 'Thinkuknow' sy'n ceisio grymuso plant a phobl ifanc a'u diogelu rhag camdriniaeth a cham-fanteisio rhywiol.

Mae 'Thinkuknow'[17] yn cynnwys ffilmiau, animeiddiadau, gwefannau, cyflwyniadau a chynlluniau gwersi i helpu gweithwyr proffesiynol i drafod materion anodd a sensitif gyda phlant a phobl ifanc mewn ffordd ddiogel. Caiff yr animeiddiadau/ffilmiau eu hategu gan becynnau cymorth a dogfennau canllaw er mwyn helpu gweithwyr proffesiynol i drafod eu themâu gyda phlant a phobl ifanc.

Bydd y cam gweithredu hwn yn yr adran 'Cydweithio'.

## 8. Bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu, drwy'r Cyngor Prydeinig-Gwyddelig, 'Diogelu. Darganfod. Cysylltu.' fel brand ar gyfer adnoddau ar y cyd.

Drwy sector waith cynhwysiant digidol y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig, byddwn yn cydweithio ar draws y gweinyddiaethau i ddatblygu cyfres o adnoddau wedi'u hanelu at bobl ifanc 16 oed. Bydd yr adnoddau hynny'n dilyn brand 'Diogelu. Darganfod. Cysylltu.' ac yn gyfres o dair ffeithlun, gydag awgrymiadau ar 'Ddiogelu', e.e. defnyddio cyfrinair cadarn a diweddaru meddalwedd; 'Darganfod', e.e. defnyddio Google Earth i chwilota; a 'Chysylltu', e.e. defnyddio Wi-Fi cyhoeddus a bod yn dinesydd da ar-lein. Bydd yr adnoddau hyn yn cael eu datblygu dros y 18 mis nesaf.

Bydd y cam gweithredu hwn yn yr adran 'Cydweithio'.

---

[17] www.thinkuknow.co.uk (Saesneg yn unig)

## 9. Gan adeiladu ar yr ymgyrch ‘Nid cariad yw hyn. Rheolaeth yw hyn’, mae Llywodraeth Cymru yn rhoi ymgyrch ar waith i dynnu sylw at reolaeth drwy orfodaeth mewn perthynas ac yn ei hanelu’n benodol at bobl ifanc.

Mae’r ymgyrch ‘Nid cariad yw hyn. Rheolaeth yw hyn’ yn rhan o ymrwymiad hirsefydlog Llywodraeth Cymru i godi ymwybyddiaeth o Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yng Nghymru a herio agweddau at y materion hyn.

Nod ymgyrch Llywodraeth Cymru ‘Nid cariad yw hyn. Rheolaeth yw hyn’ yw helpu pobl i adnabod ymddygiadau rheolaeth drwy orfodaeth. Mae rheolaeth drwy orfodaeth yn fath ar gam-drin – gall fod yn gyfrwys, gan ei gwneud yn anodd sylwi arno a chydnabod ei fod yn anghywir ac yn gyfystyr â cham-drin. Mae’r rhai sy’n dioddef ymddygiad o’r fath yn aml yn cael eu gadael i deimlo’n unig ac wedi’u bychanu. Mae’r ymgyrch yn annog y rheini sy’n dioddef rheolaeth drwy orfodaeth, sydd mewn perthynas nad yw’n iach, yn ogystal ag eraill sy’n bryderus i gysylltu â llinell gymorth Byw Heb Ofn neu sgwrsio ar-lein am gyngor a chymorth unrhyw bryd, dydd neu nos.

Ym mis Medi, rhoddodd Llywodraeth Cymru gam cyntaf yr ymgyrch ar waith gan dargedu’r negeseuon yn benodol at brofiadau pobl ifanc 19–21 oed. Anelwyd gweithgareddau’r ymgyrch yn bennaf at fyfyrwyr prifysgol i gyd-daro ag Wythnos y Glas ledled Cymru. Bydd cam nesaf yr ymgyrch yn cael ei anelu’n benodol at bobl ifanc 16–18 oed a’r rhai sy’n agos atynt, i dynnu sylw at reolaeth drwy orfodaeth mewn perthynas.

Amcanion yr ymgyrch yw:

- pwysleisio sut beth yw perthynas iach drwy hyrwyddo/amlygu ymddygiadau iach ac ymddygiadau rheolaeth nad ydynt yn iach
- helpu pobl ifanc i gydnabod bod ymddygiadau rheolaeth yn anghywir ac yn gyfystyr â cham-drin
- annog y rhai sy’n cyflawni’r ymddygiadau hyn i newid eu hymddygiad a cheisio cymorth
- symud y pwyslais oddi ar feio a chywilyddio dioddefwyr
- helpu’r rhai sy’n dyst i’r ymddygiadau hyn i sylwi arnynt, cydnabod eu bod yn gyfystyr â cham-drin a chymryd camau priodol os ydynt yn amau eu bod yn digwydd.

Bydd y cam gweithredu hwn yn yr adran ‘Cyfathrebu a hyrwyddo’.

**10. Bydd Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â'r sector gwaith ieuenctid i sicrhau bod adnoddau ar gael ar ddiogelwch ar-lein a'u bod yn cael eu hyrwyddo.**

Ym mis Mehefin 2019, lansiodd Llywodraeth Cymru'r Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru a fydd yn cael ei hategu gan gynllun gweithredu a gyhoeddir ym mis Hydref 2019. Un o nodau'r strategaeth yw sicrhau bod gwaith ieuenctid yn hygyrch ac yn gynhwysol, gan gynnwys drwy wasanaethau a darpariaeth ffisegol ac ar-lein. Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau, fel rhan o weithredu ar y cyd drwy'r Strategaeth Gwaith Ieuenctid a'r Cynllun Gweithredu Diogelwch Ar-lein, bod y rheini sy'n gweithio yn y sector yn ymwybodol o'r adnoddau diogelwch ar-lein sydd ar gael iddynt ar hyn o bryd ac yn ystyried unrhyw adnoddau eraill y gall fod eu hangen.

Bydd y cam gweithredu hwn yn yr adran 'Cyfathrebu a hyrwyddo'.

**11. Bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu strategaeth 'Cysylltu Cymunedau' i fynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol a hyrwyddo lles yng Nghymru.**

Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru, 'Symud Cymru Ymlaen 2016–21' yn cynnwys ymrwymiad i ddatblygu strategaeth drawslywodraethol ar unigrwydd ac ynysigrwydd.

Mae strategaeth 'Cysylltu Cymunedau', a fydd yn cael ei gyhoeddi yn hwyrach eleni, yn gam cyntaf wrth newid ein ffordd o feddwl a gweithredu ar unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol o fewn y llywodraeth, mewn cymunedau ac fel unigolion. Mae'n:

- gosod gweledigaeth o'r math o gymdeithas yr ydym am ei gweld, lle bydd unigolion a chymunedau yn teimlo'n gysylltiedig â'i gilydd
- diffinio'r hyn rydym ni'n ei olygu wrth unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol
- gosod ein prif flaenoriaethau a'n nodau wrth fynd i'r afael â'r materion hyn, a sut y gallwn gydweithio i chwarae'n rhan i hyrwyddo lles ac adeiladu Cymru fwy cysylltiedig a chynhwysol.

Bydd y strategaeth yn canolbwyntio ar y rôl y gall llywodraeth ei chwarae i gefnogi awdurdodau lleol, gwasanaethau cyhoeddus a'r trydydd sector, yn ogystal â chymunedau ac unigolion, i chwarae eu rhan a chefnogi cysylltiadau cymdeithasol pobl.

Ar gyfer plant a phobl ifanc, mae'r rhyngrwyd a thechnoleg ddigidol yn rhan annatod o'u bywydau. Fodd bynnag, mae ymchwil yn dangos anfanteision posib y cyfryngau cymdeithasol i bobl ifanc. Gallant fod yn gyfrwng ar gyfer bwlio, aflonyddu a phwysau cymdeithasol a all achosi, neu gyfrannu at, synnwyr o ynysigrwydd ac unigrwydd i'r plentyn neu'r person ifanc.

Mae'r strategaeth yn nodi swyddogaeth allweddol ysgolion wrth adeiladu cadernid emosiynol a seicolegol ymysg plant a phobl ifanc, ac yn amlinellu sut y bwriedir Llywodraeth Cymru cefnogi dull gweithredu ar draws yr ysgol gyfan ar gyfer lles emosiynol a meddyliol.

Bydd y cam gweithredu hwn yn yr adran 'Canllawiau a pholisi'.

**12. Yn Arolwg Cenedlaethol Cymru ar gyfer 2020–21 bydd Llywodraeth Cymru yn cynnwys diogelwch ar-lein fel pwnc.**

Bob blwyddyn, mae'r arolwg yn cynnwys cyfweliadau wyneb yn wyneb gydag oddeutu 12,000 o bobl 16 oed a hŷn ar draws Cymru, a ddewiswyd ar hap. Mae'n cwmpasu pynciau o amrywiaeth eang o feysydd polisi Llywodraeth Cymru. Mae deilliannau'r arolwg yn bwydo'n uniongyrchol i benderfyniadau ynghylch polisi a sut y cânt eu gweithredu.

Bydd gofyn i rieni/gofalwyr plant rhwng 5 a 15 oed ateb cwestiynau am ddiogelwch ar-lein. Bydd y pynciau'n cynnwys pa gamau y mae rhieni/gofalwyr yn eu cymryd i reoli defnydd eu plant o'r rhyngrwyd, p'un a yw athrawon yn siarad â phlant am ddiogelwch ar-lein, a sut y byddai rhieni/gofalwyr yn cael cyngor am ddiogelwch data.

Bydd y cam gweithredu hwn yn yr adran 'Ymchwil'.

**13. Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal ymarfer cwmpasu bach ar adnoddau diogelwch ar-lein ar gyfer dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY).**

Yn 2019–20 bydd Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â SWGfL, yn cynnal dadansoddiad bylchau i bennu'r gofynion ar gyfer adnodd diogelwch ar-lein i ddysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Yn dilyn gwaith cwmpasu a dadansoddi, bydd chwech o gynlluniau gwersi ar ddiogelwch ar-lein yn cael eu datblygu ar gyfer dysgwyr sydd ag ADY – tri ar gyfer ysgolion cynradd a thri ar gyfer ysgolion uwchradd yng Nghymru.

Bydd y cam gweithredu hwn yn yr adran 'Adnoddau'.

## 14. Bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu ac yn cyhoeddi pecyn cymorth diogelwch ar-lein ar gyfer ymarferwyr sy'n gweithio mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar.

Yn 2019–20 bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu ac yn cyhoeddi pecyn cymorth diogelwch ar-lein ar gyfer ymarferwyr sy'n gweithio mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar. Bydd y pecyn hwn yn seiliedig ar becyn blynyddoedd cynnar SWGfL. Ei nod fydd tynnu sylw at arfer gorau ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant ifanc iawn ac ar gyfer rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â thechnolegau ar-lein. Bydd y pecyn cymorth yn cynnwys templedi ar gyfer polisïau a gweithdrefnau defnydd priodol y gall lleoliadau blynyddoedd cynnar eu teilwra i'w hanghenion.

Bydd y cam gweithredu hwn yn yr adran 'Adnoddau'.

## 15. Bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu cyfres o chwech ffilm diogelwch ar-lein ar gyfer rhieni, gofalwyr a theuluoedd.

Yn 2019–20, bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio dulliau digidol i gyrraedd rhieni a gofalwyr. Gan weithio gydag ystod o arbenigwyr yn ei meysydd perthnasol, bydd SWGfL yn creu cyfres o ffilmiau byr ar gyfer rhieni a gofalwyr i gynnig cymorth ar rai o'r materion diogelwch ar-lein sy'n peri'r pryder mwyaf. Nod y gyfres ffilmiau 'Dechrau'r sgwrs' yw cynnig cyngor ac awgrymiadau i rieni a gofalwyr ar y pynciau canlynol:

- amser o flaen sgrin
- pornograffi
- secstio
- meithrin perthynas amhriodol ar-lein
- bwlio ar-lein
- radicaliaeth ac eithafiaeth.

Bydd y ffilmiau byr hyn yn ategu'r gyfres 'Canllaw i'r teulu ... ' (gweler Cam gweithredu 1) a byddant ar gael yn y Parth Diogelwch Ar-lein ar Hwb.

Bydd y cam gweithredu hwn yn yr adran 'Adnoddau'.

## Cynllun gweithredu diogelwch ar-lein i blant a phobl ifanc yng Nghymru 2019

| 1. Cyngor a chymorth | | Statws |
|---|---|---|
| 1.1 | Er mwyn cydnabod cyfraniad pwysig rhieni, gofalwyr a theuluoedd estynedig at gadw eu plant yn ddiogel ar-lein, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu canllawiau dwyieithog ar faterion diogelwch ar-lein amrywiol er mwyn eu helpu i gadw eu teuluoedd yn ddiogel ar-lein. | Parhaus. |
| 1.2 | Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i rannu cyngor â rhieni a gofalwyr ynglŷn â defnyddio amser o flaen sgrin yn ddiogel trwy ein hymgyrch 'Magu Plant. Rhowch amser iddo.' ar y we ac ar ein tudalennau Facebook a fydd yn ymestyn i rieni a gofalwyr sydd â phlant hyd at 18 oed. | Parhaus. |
| 1.3 | Bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu ac yn darparu canllawiau ac adnoddau diogelwch ar-lein dwyieithog ar gyfer llywodraethwyr ysgolion er mwyn hyrwyddo dealltwriaeth o faterion diogelwch ar-lein a'u helpu gyda'u cyfrifoldeb i gadw dysgwyr yn ddiogel ar-lein yn yr ysgol. | Parhaus. |
| 1.4 | Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal y Ganolfan Camfanteisio ar Blant a'u Hamddiffyn Ar-lein ar Hwb er mwyn hyrwyddo botwm yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol sy'n galluogi plant a phobl ifanc, rhieni a gofalwyr, ymarferwyr addysg, gweithwyr addysg proffesiynol a llywodraethwyr i roi gwybod am unrhyw bryderon yn ymwneud â cham-drin rhywiol ar-lein. | Cyflawnwyd. |

| 2. Cydweithio | | Statws |
|---|---|---|
| 2.1 | Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddatblygu a chefnogi'r Rhwydwaith Diogelwch Ar-lein Cenedlaethol, gan ddwyn ynghyd arbenigedd awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol er mwyn rhannu arferion da a datblygu dull gweithredu cynaliadwy, cyson a chadarn ym maes diogelwch ar-lein ledled Cymru. | Ar ben. |
| 2.2 | Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Chanolfan Rhyngrwyd Mwy Diogel y DU i helpu i ddarparu digwyddiadau diogelwch ar-lein gan gynnwys y sesiwn paratoi rhanddeiliaid ar gyfer Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Ddiogel a sesiwn gwybodaeth 'Diogelwch Ar-lein yn Fyw'. | Parhaus. |
| 2.3 | Bydd Llywodraeth Cymru yn cydweithio â Llywodraeth y DU i ddatblygu Strategaeth Diogelwch ar y Rhyngrwyd y DU a'r Papur Gwyn 'Online Harms'. | Parhaus. |
| 2.4 | Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gyfrannu at Fwrdd Gweithredol Cyngor y DU ar gyfer Diogelwch ar y Rhyngrwyd (UKCIS) a bydd yn dod yn aelod gweithgar o weithgor addysg UKCIS er mwyn sicrhau bod Cymru'n cael ei chynrychioli ar lefel y DU. | Parhaus. |

| | | |
|---|---|---|
| 2.5 | Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi'r Grŵp Diogelu mewn Addysg Cenedlaethol, gan ddwyn ynghyd arweinwyr awdurdodau lleol a phartneriaid eraill i rannu arferion da a gwneud gwaith prosiect ym maes diogelu plant. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn mynychu er mwyn cynrychioli rhaglen waith diogelwch ar-lein Hwb. | Parhaus. |
| 2.6 | Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gydweithio â'r Grŵp Cynghori ar Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh), gan ystyried materion diogelwch ar-lein, fel sy'n briodol. Bydd y Grŵp Cynghori ar ABCh yn parhau i sicrhau ansawdd gwersi yn ymwneud ag ABCh pan fydd angen. | Parhaus. |
| 2.7 | Bydd diogelwch ar-lein yn gwneud cyfraniad allweddol at addysg cydberthynas a rhywioldeb yn dilyn argymhellion y Panel Arbenigol ar Addysg Rhyw a Pherthnasoedd ym mis Mawrth 2017. | Ar y gweill. |
| 2.8 | Bydd Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo defnydd o'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol trwy barhau i weithio gydag ysgolion i sefydlu'r sgiliau digidol, yr wybodaeth a'r agweddau sydd eu hangen ledled y cwricwlwm i ddiogelu dysgwyr ar-lein. | Parhaus. |
| 2.9 | Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu cyllid trwy'r Grant Gwella Ysgolion Rhanbarthol er mwyn galluogi'r consortia rhanbarthol i hyrwyddo dinasyddiaeth ddigidol a defnydd diogel a chyfrifol o dechnoleg ddigidol. | Ar y gweill. |
| 2.10 | Bydd Llywodraeth Cymru yn cyfrannu at Bartneriaeth Diogelwch y Rhyngrwyd Cymru (WISP) er mwyn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am raglenni gwaith diogelwch ar-lein a thrafod materion diogelwch ar-lein. | Parhaus. |
| 2.11 | Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i adolygu a monitro effaith Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 a dyletswyddau awdurdodau lleol yn ymwneud â darparu addysg. | Ar ben. |
| 2.12 | Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried sut i gryfhau darpariaeth diogelwch ar-lein mewn gwasanaethau addysg heblaw yn yr ysgol, gan gynnwys unedau cyfeirio disgyblion. | Ar y gweill. |
| 2.13 | Bydd portffolios Iechyd ac Addysg Llywodraeth Cymru yn cyd-ariannu cynllun peilot i brofi darpariaeth mewngymorth iechyd meddwl ar gyfer ysgolion gan y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS). | Ar y gweill. |
| 2.14 | Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gydag Ysgolion Arloesi trwy'r meysydd dysgu a phrofiad perthnasol, gan gynnwys Iechyd a Lles, er mwyn sicrhau bod materion diogelwch ar-lein yn llywio'r gwaith o ddatblygu Cwricwlwm i Gymru 2022. | Ar y gweill. |
| 2.15 | Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ariannu Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan yn 2019–20 mewn partneriaeth â'r heddlu. Mae diogelwch ar-lein yn faes a gwmpesir gan y rhaglen. | Cam gweithredu newydd. |
| 2.16 | Bydd Llywodraeth Cymru yn cydweithio â'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol i hyrwyddo rhaglenni 'Cyber First' yng Nghymru. | Cam gweithredu newydd. |

| | | |
|---|---|---|
| 2.17 | Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Get Safe Online i sicrhau bod eu gwefan Gymraeg newydd yn cael ei lansio'n effeithiol. | Cam gweithredu newydd. |
| 2.18 | Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r cenhedloedd datganoledig eraill a Llywodraeth y DU i rannu arfer da o ran diogelwch ar-lein ac archwilio cyfleoedd i gydweithredu. | Cam gweithredu newydd. |
| 2.19 | Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Google a ParentZone i gefnogi eu rhaglen addysg ar ddiogelwch ar-lein. | Cam gweithredu newydd. |
| 2.20 | Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod pobl ifanc yn gallu cael hyd i wybodaeth a chyngor sydd ar gael i helpu i godi ymwybyddiaeth am hunan-niweidio a hunanladdiad. | Cam gweithredu newydd. |
| 2.21 | Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol i archwilio cyfleoedd gydweithio er mwyn darparu addysg a chodi ymwybyddiaeth o gam-drin a cham-fanteisio ar blant ar-lein. | Cam gweithredu newydd. |
| 2.22 | Bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu, drwy'r Cyngor Prydeinig-Gwyddelig, 'Diogelu. Darganfod. Cysylltu.' fel brand ar gyfer adnoddau ar y cyd. | Cam gweithredu newydd. |

| 3. Cyfathrebu a hyrwyddo | | Statws |
|---|---|---|
| 3.1 | Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi digwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid addysg sy'n cynnwys diogelwch ar-lein. | Parhaus. |
| 3.2 | Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu Parth Diogelwch Ar-lein deinameg ar Hwb, sy'n cynnwys ffynonellau newyddion, digwyddiadau ac adnoddau diogelwch ar-lein ar gyfer plant, pobl ifanc, gweithwyr addysg proffesiynol, llywodraethwyr, rhieni a gofalwyr. | Parhaus. |
| 3.3 | Bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel yng Nghymru bob blwyddyn er mwyn codi proffil a phwysigrwydd diogelwch ar-lein ledled Cymru. | Parhaus. |
| 3.4 | Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio llwyfannau cyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu a chodi ymwybyddiaeth o'r amrywiaeth eang o weithgareddau diogelwch ar-lein sy'n digwydd ledled Cymru. | Parhaus. |
| 3.5 | Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda SWGfL i ddarparu cylchlythyr diogelwch ar-lein dwyieithog bob mis. | Parhaus. |
| 3.6 | Gan adeiladu ar yr ymgyrch 'Nid cariad yw hyn. Rheolaeth yw hyn', mae Llywodraeth Cymru yn rhoi ymgyrch ar waith i dynnu sylw at reolaeth drwy orfodaeth mewn perthynas ac yn ei hanelu'n benodol at bobl ifanc. | Cam gweithredu newydd. |
| 3.7 | Bydd Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â'r sector gwaith ieuenctid i sicrhau bod adnoddau ar gael ar ddiogelwch ar-lein a'u bod yn cael eu hyrwyddo. | Cam gweithredu newydd. |

| 4. | Canllawiau a pholisi | Statws |
|---|---|---|
| 4.1 | Bydd Llywodraeth Cymru yn diwygio ac yn diweddaru'r canllaw diogelwch statudol *Cadw dysgwyr yn ddiogel*, a fydd yn cynnwys diweddariad ar ddiogelwch ar-lein. | Ar y gweill. |
| 4.2 | Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod materion meithrin perthynas amhriodol ar-lein a chamfanteisio'n rhywiol ar blant yn cael eu hystyried wrth ddiweddaru'r canllaw statudol *Amddiffyn Plant a Phobl Ifanc rhag Camfanteisio Rhywiol*. | Ar y gweill. |
| 4.3 | Bydd grŵp gorchwyl a gorffen amlasiantaeth yn datblygu canllawiau ymarfer Cymru gyfan ar ddiogelu plant sydd mewn perygl o gael eu cam-drin ar-lein. Bydd Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro yn ymgynghori ar y canllawiau hyn a'u cyhoeddi ar ran Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a'r Byrddau Diogelu yng Nghymru. Bwriedir cyhoeddi'r Gweithdrefnau Amddiffyn Cenedlaethol a'r canllawiau ymarfer cysylltiedig tua dechrau 2019. | Ar y gweill. |
| 4.4 | Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal y safonau hidlo'r we a argymhellir ar gyfer ysgolion yng Nghymru. | Parhaus. |
| 4.5 | Bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu ac yn diwygio'r canllaw gwrthfwlio anstatudol *Parchu eraill*, sy'n cynnwys cyngor ar fynd i'r afael â bwlio ar-lein mewn ysgolion. | Ar y gweill. |
| 4.6 | Bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu'r adnoddau gwrthfwlio sydd ar gael ar gyfer ysgolion ar hyn o bryd ac yn asesu unrhyw anghenion er mwyn helpu ymarferwyr addysg i fynd i'r afael â bwlio mewn lleoliadau addysg. | Ar y gweill. |
| 4.7 | Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal canllawiau *Gwrthsafiad a pharch* ar gyfer ysgolion. | Parhaus. |
| 4.8 | Bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu strategaeth 'Cysylltu Cymunedau' i fynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol a hyrwyddo lles yng Nghymru. | Cam gweithredu newydd. |

| 5. | Ymchwil | Statws |
|---|---|---|
| 5.1 | Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i archwilio defnydd amser o flaen sgrin gan blant yng Nghymru ar hyn o bryd er mwyn llywio datblygiad polisi yn y maes hwn. | Ar y gweill. |
| 5.2 | Yn Arolwg Cenedlaethol Cymru ar gyfer 2020–21 bydd Llywodraeth Cymru yn cynnwys diogelwch ar-lein fel pwnc. | Cam gweithredu newydd. |

| 6. | Adnoddau | Statws |
|---|---|---|
| 6.1 | Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda SWGfL i hyrwyddo a darparu mynediad i 360 degree safe Cymru, adnodd hunanasesu diogelwch ar-lein dwyieithog sydd ar gael i bob ysgol a gynhelir yng Nghymru trwy gofrestru untro gyda Hwb. Bydd cynnwys yr adnodd, yn ogystal â'r templedi polisi cysylltiedig, yn cael eu diweddaru unwaith bob dwy flynedd. | Parhaus. |

| | | |
|---|---|---|
| 6.2 | Bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu adnoddau diogelwch ar-lein dwyieithog ar gyfer plant ysgolion cynradd ac uwchradd yn ymwneud ag amrywiaeth o faterion diogelwch ar-lein penodol. | Parhaus. |
| 6.3 | Bydd Llywodraeth Cymru yn archwilio'r adnoddau diogelwch ar-lein sydd ar gael a sut y gellir eu teilwra ar gyfer rhieni a gofalwyr sy'n darparu addysg yn y cartref. | Ar y gweill. |
| 6.4 | Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddatblygu amrywiaeth o ddeunyddiau diogelwch ar-lein dwyieithog ar gyfer ymarferwyr addysg, gan gynnwys adnoddau ystafell ddosbarth a chanllawiau i athrawon. | Parhaus. |
| 6.5 | Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu deunyddiau newydd fel bod ymarferwyr addysg yn gallu cynnal sesiynau diogelwch ar-lein ar gyfer rhieni a gofalwyr. | Cyflawnwyd. |
| 6.6 | Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda Common Sense Media ac SWGfL i ddatblygu a chyhoeddi dros 50 o gynlluniau gwers dwyieithog ac adnoddau cysylltiedig yn ymwneud â materion diogelwch ar-lein amrywiol. | Cyflawnwyd. |
| 6.7 | Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i adolygu, diweddaru a chyhoeddi'r *Adnodd Diogelwch Ar-lein i Gymru* ar Hwb. | Cyflawnwyd. |
| 6.8 | Bydd Llywodraeth Cymru yn talu'n rhannol am ddatblygu adnodd camfanteisio'n rhywiol ar blant ar gyfer dysgwyr Blwyddyn 6. | Cyflawnwyd. |
| 6.9 | Bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu ac yn cyflwyno adnodd archwilio diogelwch a chanllaw cysylltiedig i'w defnyddio gan ysgolion er mwyn asesu eu darpariaeth diogelu. | Ar y gweill. |
| 6.10 | Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r NSPCC i ddarparu fersiwn dwyieithog newydd o adnoddau *Net Aware* yr NSPCC. | Cyflawnwyd. |
| 6.11 | Bydd y fersiwn diweddaraf o becyn cymorth cwnsela Llywodraeth Cymru yn cynnwys pennod ar gwnsela ar-lein, gan roi arweiniad ar ddarparu gwasanaeth ar-lein diogel. | Ar y gweill. |
| 6.12 | Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal ymarfer cwmpasu bach ar adnoddau diogelwch ar-lein ar gyfer dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). | Cam gweithredu newydd. |
| 6.13 | Bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu ac yn cyhoeddi pecyn cymorth diogelwch ar-lein ar gyfer ymarferwyr sy'n gweithio mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar. | Cam gweithredu newydd. |
| 6.14 | Bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu cyfres o chwech ffilm diogelwch ar-lein ar gyfer rhieni, gofalwyr a theuluoedd. | Cam gweithredu newydd. |

| 7. Hyfforddiant a datblygiad | | Statws |
|---|---|---|
| 7.1 | Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu rhaglen hyfforddiant gynhwysfawr yn ymwneud â diogelwch ar-lein, gan ganolbwyntio ar feysydd diogelwch ar-lein penodol. | Ar y gweill. |
| 7.2 | Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i hyrwyddo'r modiwl *Cadw dysgwyr yn ddiogel – Diogelwch ar-lein*. | Parhaus. |
| 7.3 | Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod diogelwch ar-lein yn parhau i fod yn rhan allweddol o'r holl weithgarwch yn ymwneud â chynhwysiant digidol. | Parhaus. |
| 7.4 | Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid allweddol i ddarparu deunydd hyfforddiant a chymorth yn ymwneud â materion gwrthderfysgaeth. | Parhaus. |

## Casgliad

Mae ein defnydd o’r rhyngrwyd a thechnoleg ddigidol yn esblygu’n gyson ac mae wedi dod yn rhan annatod o fywyd bob dydd ar gyfer plant a phobl ifanc. Wrth i’r rhyngrwyd a defnydd o’r rhyngrwyd esblygu, mae cyfleoedd i’w gamddefnyddio a’r perygl o niwed i ddefnyddwyr yn esblygu hefyd.

Mae’r camau gweithredu a nodir yn y ddogfen hon yn dangos ymrwymiad a dull gweithredu rhagweithiol Llywodraeth Cymru o helpu i amddiffyn plant a phobl ifanc rhag cynnwys anghyfreithlon a niweidiol ar y rhyngrwyd, a hyrwyddo ymddygiad diogel, cyfrifol ac ystyriol ar-lein.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i adolygu cynnydd yn erbyn y camau gweithredu hyn ac yn cyhoeddi diweddariad blynyddol i’r cynllun gweithredu.